

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:  
70/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:  
11/07/2023

# Gwerthusiad o Weithgareddau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru

Gwerthusiad o Weithgareddau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru

Martin Jones, Hefin Thomas, Jennifer Lane a Lois Roberts.  
Cwmni ymchwil Arad



Jones, M., Thomas, H., Lane, J and Roberts, L. (2023). Gwerthusiad o Weithgareddau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 70/2023  
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-weithgareddau-cwpan-y-byd-ariennir-gan-lywodraeth-cymru>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Joanne Starkey

Diwylliant Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru](mailto:ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru).

## Tabl cynnwys

Tabl cynnwys .....	1
Rhestr o ffigurau .....	2
1. Crynodeb gweithredol .....	3
2. Cyflwyniad .....	11
3. Dyluniad y gweithgareddau a sut y cawsant eu cyflawni .....	14
4. Allbynnau, deilliannau ac effaith .....	22
5. Heriau a gwersi a ddysgwyd .....	42
6. Gwaddol .....	45
7. Casgliadau ac argymhellion .....	49
Atodiad A: Crynodeb o brosiectau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid .....	55

## **Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1. Cyfeiriadau at Gymru (gan gynnwys dinasoedd a threfi Cymru) ar-lein yn y cyfnodau Ionawr – Mehefin a Gorffennaf – Medi 2022.....	27
--	----

## 1. Crynodeb gweithredol

1.1 Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'i rhaglen weithgareddau i hyrwyddo Cymru fel rhan o gystadleuaeth Cwpan y Byd Dynion FIFA 2022.

### Cefndir

1.2 Prif amcanion y gwerthusiad oedd:

- asesu cyfraniad y gweithgareddau tuag at amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cwpan y Byd
- asesu i ba raddau y mae'r gweithgareddau wedi cyflawni'r hyn a fwriadwyd
- asesu sut y mae'r gweithgareddau'n cyd-fynd ag amcanion polisi strategol eraill Llywodraeth Cymru
- cynnig argymhellion a gwersi a ddysgwyd ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

1.3 Nod gweithgareddau Cwpan y Byd Llywodraeth Cymru oedd gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a'r manteision a oedd yn codi yn sgil y ffaith bod tîm pêl-droed dynion Cymru yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd FIFA 2022 yn Qatar. Hwn oedd y cyfle marchnata a diplomyddiaeth mwyaf arwyddocaol a gyflwynwyd erioed i Lywodraeth Cymru yn y maes chwaraeon, o ystyried proffil y digwyddiad.

1.4 Amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chwpan y Byd oedd:

- hyrwyddo Cymru
- rhannu ein gwerthoedd
- sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru yn y digwyddiad
- sicrhau gwaddol cadarnhaol a pharhaus.

1.5 Roedd gweithgareddau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Y **Gronfa Cefnogi Partneriaid** a ariannodd 19 o sefydliadau diwylliant, chwaraeon ac addysg i gynnal gweithgareddau i ddathlu'r ffaith bod Cymru wedi cyrraedd cystadleuaeth Cwpan y Byd. Mae crynodeb o bob un o brosiectau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid wedi'i gynnwys yn Atodiad B yn yr adroddiad llawn.
- **Ymgyrch farchnata estynedig**, a oedd yn canolbwyntio ar farchnadoedd targed rhyngwladol craidd ar draws brand Cymru Wales, busnes a thwristiaeth yn ogystal â phresenoldeb cryf yr ymgyrch yng Nghymru. Roedd marchnadoedd targed yr ymgyrch yn cynnwys Cymru, UDA, rhannau o Ewrop, y DU, a Qatar.

- **Lleisiau Cymru: Llysgenhadon Cwpan y Byd** – menter newydd yn cynnwys grŵp o bedwar unigolyn a weithiodd i godi proffil Cymru yn rhyngwladol ac i helpu i greu canfyddiadau cadarnhaol hirdymor a meithrin perthnasoedd cryf â phartneriaid allweddol
- **Digwyddiadau rhyngwladol** a drefnwyd gan swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, yn arbennig yn Qatar ac UDA.

1.6 Roedd y **fethodoleg** a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad yn cynnwys cyfuniad o gyfweiliadau ansoddol ag 20 o randdeiliaid ynghyd ag adolygiad pen desg o ddogfennaeth berthnasol, data monitro a chanlyniadau arolygon. Ceir rhagor o fanylion am y fethodoleg yn Adran 2.6 yr adroddiad llawn.

### **Canfyddiadau: Dylunio a chyflawni**

- 1.7 Roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi pennu **nodau a gwerthoedd clir a rennir** o'r cychwyn cyntaf ar ffurf y **pedwar amcan a'r datganiad gwerthoedd**. Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod yr amcanion a'r gwerthoedd yn cyd-fynd yn dda â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau cenedlaethol eraill megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Cymraeg 2050.
- 1.8 Roedd gan y rhanddeiliaid **farn gadarnhaol ynghylch maint, ansawdd a chyrhaeddiad y gweithgareddau a gomisiynwyd ac a gyflwynwyd** drwy 19 o brosiectau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid, yr ymgyrch farchnata estynedig, gweithgareddau Lleisiau Cymru a digwyddiadau rhyngwladol. **Pwysleisiwyd bod hyn oll wedi'i gyflawni yn y cyfnod byr** rhwng yr adeg yr aeth Cymru drwodd i Gwpan y Byd ym mis Mehefin 2022 a dechrau'r bencampwriaeth ym mis Hydref.
- 1.9 Dywedodd y rhanddeiliaid fod y **dull Tîm Cymru wedi dod â sefydliadau a chanddynt ffocws strategol a chydgyssylltiedig ynghyd**. Mynegwyd barn gadarnhaol gan y rhanddeiliaid ynghylch y 'trefniadau partneriaeth effeithiol', 'amlder y cyfarfodydd' a 'chyfathrebu da' gan Lywodraeth Cymru.
- 1.10 Roedd y rhanddeiliaid yn ystyried bod **dull Llywodraeth Cymru o gyfuno gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau chwaraeon yn effeithiol** o ran adeiladu ar gryfderau Cymru a'r partneriaid. Roedd y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod y dull hwn wedi galluogi Cymru i arddangos ei natur unigryw fel cenedl ar lefel ryngwladol.

- 1.11 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod yr ystod o weithgareddau diwylliannol a gweithgareddau chwaraeon a ariannwyd drwy'r Gronfa Cefnogi Partneriaid yn **amrywiol, yn gynhwysol ac yn cyd-fynd â'r datganiad gwerthoedd** a bod hyn wedi annog pobl i gymryd rhan yn y gweithgareddau, yn enwedig pobl ifanc.
- 1.12 Roedd gan rhanddeiliaid farn gadarnhaol ynghylch y cymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gydlynw a hyrwyddo gweithgareddau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid a **chynyddu eu cyrhaeddiad drwy'r gweithgareddau marchnata estynedig** a'r cymorth a gomisiynwyd ar ffurf cysylltiadau cyhoeddus.

### **Deilliannau'n ymwneud ag amlygrwydd a phroffil Cymru**

- 1.13 Mae gweithgareddau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi llwyddo o ran yr amcanion craidd yn ymwneud â **hyrwyddo Cymru a rhannu ei gwerthoedd** drwy gyfuniad o weithgareddau marchnata a gweithgareddau partneriaid. Ceir tystiolaeth gref bod y gweithgareddau hyn wedi cyrraedd cynulleidfa eang, gartref ac yn rhyngwladol:
- Creodd gweithgareddau'r **ymgyrch farchnata estynedig** a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, o dan y brand Cymru Wales, dros **150 miliwn o gyfleoedd i weld** cynnwys yn ymwneud â Chymru (49 y cant yn uwch na'r targed a bennwyd)
    - **At hynny, cafodd fideos yn ymwneud â'r band Cymru Wales eu gweld 48 miliwn o weithiau** (50 y cant yn uwch na'r targed a bennwyd)
  - Arweiniodd **gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus** a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru at **540 o eitemau o sylw yn y cyfryngau** ac amcangyfrifir bod hyn wedi creu **8 biliwn o 'gyfleoedd i weld'** y sylw hwn
  - Fe wnaeth mwy na **320,000 o bobl** gymryd rhan neu fynychu dros **2,200 o ddigwyddiadau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid a gweithgareddau cysylltiedig.**
    - Cyrhaeddodd y digwyddiadau a'r gweithgareddau hyn gynulleidfa o dros **5 miliwn.**
- 1.14 Mae'r gweithgareddau hyn wedi sicrhau deilliannau cadarnhaol o ran **canfyddiad y byd o Gymru drwy weithgareddau wedi'u targedu a ddarparwyd o dan y brand Cymru Wales** (brand Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo Cymru fel lle i ymweld ag ef ac i fuddsoddi, gweithio ac astudio ynddo), yn unol â phrif amcanion y gweithgareddau.

- Gwelwyd cynnydd o 600 y cant yn y traffig i'r wefan [wales.com](https://www.wales.com) yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022 (cyfnod Cwpan y Byd) o gymharu â'r un cyfnod yn 2021, wedi'i ysgogi gan lwybrau 'y talwyd amdanynt' gan Lywodraeth Cymru a chan draffig 'organig'
  - Dywedodd 16 y cant o'r holl ymwelwyr, a 23 y cant o'r rhai o'r tu allan i'r DU eu bod wedi ymweld â'r wefan [wales.com](https://www.wales.com) oherwydd iddynt weld rhywbeth am Gymru yng Nghwpan y Byd
- Gwelwyd cynnydd o 39 y cant yn y traffig i wefan [Masnach a Buddsoddi Cymru](#) yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022 (cyfnod Cwpan y Byd) o gymharu â'r un cyfnod yn 2021, wedi'i ysgogi gan lwybrau Llywodraeth Cymru 'y talwyd amdanynt' a chan draffig 'organig'
- **Roedd y cyfeiriadau at Gymru ar-lein** 40 y cant yn uwch yn fyd-eang yn ail hanner 2022 (cyfnod Cwpan y Byd) o gymharu â hanner cyntaf y flwyddyn
  - Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y cyfeiriadau at Gymru yng ngweddill y DU, yr UE ac UDA
  - Cynyddodd cyfran Cymru o'r holl gyfeiriadau at wledydd y DU yn fyd-eang hefyd o 5 i 7 y cant dros y cyfnod hwn
- Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r arolwg o rannau eraill o'r DU wedi **gweld rhyw fath o sylw yn y cyfryngau i Gymru** yn ystod Cwpan y Byd
  - Gwelodd 13 y cant ffilm hyrwyddo am Gymru yn ymwneud â'r bencampwriaeth.<sup>1</sup>

1.15 Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod y gweithgareddau a gynhaliwyd wedi gwella'r **canfyddiadau o Gymru** ymhlith cynulleidfaoedd.

- Ymhlith cynulleidfaoedd y DU, canfu *Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth Croeso Cymru - y DU* (Croeso Cymru, 2023) fod ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (46 y cant) a welodd ryw fath o sylw ar y cyfryngau am Gymru yn ystod Cwpan y Byd wedi dweud ei fod wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy cadarnhaol am Gymru (dywedodd 52 y cant nad oedd wedi cael unrhyw effaith ar eu canfyddiadau).
  - Dywedodd 63 y cant o deuluoedd ei fod wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy cadarnhaol am Gymru.<sup>2</sup>
- Dengys dadansoddiad o newidiadau yn y **teimladau a fynegwyd wrth sôn am Gymru ar-lein** (yn cymharu'r cyfeiriadau cadarnhaol, negyddol a niwtral mewn sgysiau) fod cynnydd o 18 y cant yn y cyfeiriadau cadarnhaol at Gymru

<sup>1</sup> *Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth Croeso Cymru - y DU* (Croeso Cymru, 2023)

<sup>2</sup> Cwestiwn: Sut, os o gwbl, y mae hyrwyddiad a sylw am Gymru yng Nghwpan y Byd wedi effeithio ar eich canfyddiadau o Gymru? N=707



a gostyngiad o 10 y cant yn y cyfeiriadau negyddol at Gymru yn ail hanner 2022 o gymharu â hanner cyntaf y flwyddyn<sup>3</sup>

- 1.16 Mae'n rhy fuan i adrodd yn hyderus ynghylch a fydd proffil uwch Cymru a'r effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn sgil canfyddiadau gwell yn cael eu cynnal dros amser. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid fod creu brand ar gyfer y genedl yn ymdrech tymor hwy gan awgrymu y **bydd angen gweithgareddau parhaus i fanteisio'n llawn ar y deilliannau cadarnhaol sy'n dod i'r amlwg.**

### **Deilliannau economaidd**

- 1.17 Roedd llawer o'r gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn anelu at gynyddu ymgysylltiad â phartneriaid mewn marchnadoedd targed fel rhan o broses hirdymor o greu'r amodau cywir ar gyfer gweithgaredd economaidd yn y dyfodol. Dengys y canfyddiadau un deilliant economaidd mesuradwy cynnar yn seiliedig ar y gweithgareddau marchnata twristiaeth estynedig, hynny yw bod **yartneriaeth gydag un asiant dwristiaeth ar-lein wedi arwain at gynydd o 50% yn nifer yr archebion gros o flwyddyn i flwyddyn.**
- 1.18 Disgrifiodd y rhanddeiliaid ddeilliannau economaidd eraill sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys **trafodaethau parhaus gyda darpar fuddsoddwyr tramor ynghylch creu swyddi newydd yng Nghymru;** ymgysylltwyd â'r sefydliadau hyn yn ystod digwyddiadau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn UDA. Darparodd rhai rhanddeiliaid enghreifftiau o artistiaid a cherddorion penodol a oedd wedi manteisio yn sgil cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid ac wedi llwyddo i gael gwaith neu gomisiynau newydd o ganlyniad i hynny. At hynny, amcangyfrifodd un darlledwr fod gwerth economaidd y darllediadau yn ystod y 10 diwrnod ar ôl y cyngerdd *Cymru i'r Byd* yn Efrog Newydd yn £380,000.

### **Gwaddol**

- 1.19 Mae'r gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cefnogi creu adnoddau newydd ac wedi hwyluso partneriaethau newydd, rhannu arbenigedd a rhwydweithio. Dywedodd y rhanddeiliaid fod llawer o'r partneriaethau a grëwyd

---

<sup>3</sup> *Wales Nation Brand FIFA World Cup Halo Impact Report* (iCrossing, 2023)

rhwng eu sefydliadau eu hunain a phartneriaid diwylliannol a chwaraeon eraill yn ystod Cwpan y Byd yn cael eu cynnal. **Cyfrannodd cydweithio llwyddiannus rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU at gyflawni nod allweddol arall**, sef sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru yn Qatar yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd busnes, y gellir adeiladu arnynt ar gyfer y posibilrwydd o gynnal Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop ar y cyd yn 2028.

- 1.20 Cyfrannodd y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn Qatar ac UDA at wella cysylltiadau economaidd, addysgol a diwylliannol gyda phartneriaid rhyngwladol ar lefel weinidogol a sefydliadol. Dywedodd y rhanddeiliaid fod **rhwydweithiau rhyngwladol wedi'u cryfhau mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys busnes, gwyddoniaeth a'r celfyddydau** a rhagwelwyd y byddai cyfleoedd buddsoddi newydd yn codi o'r gweithgareddau hyn. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid fod nifer o wersi pwysig wedi'u dysgu o'r gwaith ymgysylltu hwn. Roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd cyfathrebu yn iaith y gwledydd lle y cynhelir y digwyddiadau, ymgysylltu'n gynnar â chynrychiolwyr llywodraethau Cymru a'r DU, a bod **presenoldeb Gweinidogion yn hanfodol i ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol**.
- 1.21 Teimlai'r sefydliadau yn gyffredinol fod y cyllid a ddyrannwyd i weithgareddau Cwpan y Byd yn ddigonol iddynt gyflawni eu gweithgareddau eu hunain. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn ystyried y **gellid bod wedi dyrannu mwy o arian i farchnata a chysylltiadau cyhoeddus, i hyrwyddo gweithgareddau partneriaid ymhellach a hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol**. Teimlai rhai rhanddeiliaid y gallai cynyddu'r adnoddau a ddyrennir i hyrwyddo brand Cymru Wales yn barhaus, ochr yn ochr â sefydlu tîm ar gyfer cynllunio gweithgareddau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â diplomyddiaeth chwaraeon a diwylliannol, gynyddu effaith gweithgareddau'r dyfodol.
- 1.22 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod y dull 'Tîm Cymru' – dod ag ystod eang o bartneriaid ynghyd i gydweithio i gyflawni amcanion a rennir – **yn fodel effeithiol y gellir ei efelychu er mwyn cefnogi unrhyw strategaeth yn y dyfodol a chreu gwaddol**. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru felly ddatblygu strategaeth chwaraeon wedi'i diweddarau, sy'n cynnwys ffocws ar chwaraeon a diplomyddiaeth ddiwylliannol, a sicrhau ei bod yn cyd-fynd â pholisïau a strategaethau presennol.

- 1.23 Teimlai'r rhanddeiliaid y dylai strategaethau'r dyfodol nodi a phwysleisio cryfderau chwaraeon Cymru a gydnabyddir yn rhyngwladol (e.e. rhaglenni hyfforddi Cymdeithas Bêl-droed Cymru) ac y dylai Llywodraeth Cymru geisio **nodi cyfleoedd i ddenu cyllid a nawdd** drwy ddatblygu cysylltiadau agosach â brandiau a chwmnïau Cymreig.
- 1.24 Roedd y rhanddeiliaid yn ystyried ei bod yn hanfodol bod **athletwyr ac artistiaid yn rhan annatod o'r broses o gynnal gwaddol gweithgareddau Cwpan y Byd**. Awgrymodd y rhanddeiliaid y dylid cynnal ac ehangu'r rhaglen Lleisiau Cymru, gan nodi llysgenhadon newydd i gyd-daro â gweithgareddau a gynllunnir yn y dyfodol i gyd-fynd â digwyddiadau megis Cwpan Rygbi'r Byd 2023, Gemau'r Gymanwlad 2026 a Phencampwriaethau Ewropeaidd 2028.

## **Argymhellion**

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro amlygrwydd a phroffil Cymru ar-lein drwy olrhain cyfeiriadau at Gymru a chanfyddiadau o Gymru yn ogystal â thraffig i'w gwefannau a'i sianeli cyfryngau cymdeithasol. Lle bo modd, dylid ceisio olrhain newidiadau dros amser er mwyn meincodi effaith gwahanol fathau o weithgareddau hyrwyddo.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal gweithgareddau marchnata estynedig yn seiliedig ar ddigwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol yn y dyfodol, gan weithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd cenedlaethol a rhyngwladol.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi'r dull 'Tîm Cymru' ac ystyried ffurfioli'r trefniadau partneriaeth.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod partneriaethau ar lefel strategol gyda Llywodraeth y DU yn cael eu cynnal i gefnogi a manteisio ar botensial y cais i gynnal Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop 2028.

**Argymhelliad 5:** Dylai gweithgareddau yn y dyfodol i godi proffil Cymru a gaiff eu harwain gan Lywodraeth Cymru gyd-fynd ag ymweliadau gweinidogol, mewn partneriaeth â thimau tramor llywodraethau Cymru a'r DU.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei hadnoddau presennol i sicrhau bod tîm hyblyg yn gallu ymateb i ddigwyddiadau yn y dyfodol er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer diplomyddiaeth chwaraeon a diplomyddiaeth ddiwylliannol a marchnata 'brand Cymru' yn rhyngwladol.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon sy'n cyd-fynd ag amcanion polisi allweddol eraill gan gynnwys y Strategaeth Ryngwladol gyfredol, y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a'r Strategaeth Ddiwylliant arfaethedig i Gymru.

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid barhau i ddatblygu a gwella rolau llysgenhadon Lleisiau Cymru drwy nodi, hyfforddi a chefnogi athletwyr ac artistiaid eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â datblygu 'brand Cymru'.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'i rhaglen weithgareddau i hyrwyddo Cymru fel rhan o weithgareddau cystadleuaeth Cwpan y Byd Dynion FIFA 2022. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad.

### Amcanion y gwerthusiad

2.2 Prif amcanion y gwerthusiad oedd:

- asesu cyfraniad y gweithgareddau tuag at amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cwpan y Byd
- asesu i ba raddau y mae'r gweithgareddau wedi cyflawni'r hyn a fwriadwyd
- asesu sut y mae'r gweithgareddau'n cyd-fynd ag amcanion polisi strategol eraill Llywodraeth Cymru
- cynnig argymhellion a gwersi a ddysgwyd ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

### Cefndir y gweithgareddau a ariannwyd

2.3 Ar ôl i dîm pêl-droed dynion Cymru fynd drwodd i gystadleuaeth Cwpan y Byd FIFA 2022 yn Qatar, nod Llywodraeth Cymru oedd gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a'r manteision a oedd yn deillio o'r ffaith bod y tîm yn cymryd rhan. Hwn oedd y cyfle marchnata a diplomyddiaeth mwyaf arwyddocaol a gyflwynwyd erioed i Lywodraeth Cymru yn y maes chwaraeon, o ystyried proffil y digwyddiad.

2.4 Amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chwpan y Byd oedd:

- hyrwyddo Cymru
- rhannu ein gwerthoedd
- sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru yn y digwyddiad
- sicrhau gwaddol cadarnhaol a pharhaus.

2.5 Roedd y gweithgareddau a ariannwyd yn cynnwys y canlynol:

- 1) Darparodd y **Gronfa Cefnogi Partneriaid** gymorth ariannol i sefydliadau diwylliant, chwaraeon ac addysg ar gyfer gweithgareddau i ddathlu Cymru yng Nghwpan y Byd. Mae hyn wedi cynnwys gweithgareddau i hyrwyddo Cymru'n fyd-eang, cynnal digwyddiadau i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn chwaraeon, cysylltu â Chymry ar wasgar a helpu cefnogwyr i ddathlu'r gemau yng Nghymru a ledled y byd. Mae crynodeb o bob un o brosiectau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid yn Atodiad B.

- 2) **Ymgyrch farchnata estynedig**, a oedd yn canolbwyntio ar farchnadoedd targed rhyngwladol craidd ar draws brandiau, busnesau a thwristiaeth yn ogystal â phresenoldeb cryf yr ymgyrch yng Nghymru. Y marchnadoedd a dargedwyd gan yr ymgyrch oedd Cymru, UDA, y DU, a Qatar.
- 3) Arweiniodd tîm y **brand Cymru Wales** ymgyrch gymdeithasol, ddigidol a chysylltiadau cyhoeddus fyd-eang benodol, gan weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) ac roedd hyn yn cyd-fynd ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cymru i'r byd a gyrru traffig i wefan wales.com.
- Cefnogwyd gweithgareddau a arweiniwyd gan brand Cymru Wales gan ymgyrchoedd penodol Marchnata Busnes a Marchnata Twristiaeth i fanteisio ar bresenoldeb Cymru ar lwyfan y byd mewn marchnadoedd targed ac roedd yn cyd-fynd ag amcanion ehangach gan anelu at ddatblygu gwaddol o gynnwys a gweithgareddau ar gyfer y dyfodol.
    - Roedd y gweithgareddau **marchnata busnes** yn cynnwys partneriaethau ac ymgyrchoedd yn y cyfryngau yn ogystal â digwyddiad Technoleg Ariannol yn Llundain.
    - Roedd y gweithgareddau **marchnata twristiaeth** yn cynnwys partneriaethau ag asiantaethau teithio ar-lein i ysgogi diddordeb ac archebion ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru.
- 4) **Lleisiau Cymru: Llysgenhadon Cwpan y Byd** - grŵp o bedwar unigolyn a weithiodd i godi proffil Cymru yn rhyngwladol ac i helpu i greu canfyddiadau cadarnhaol hirdymor a meithrin perthnasoedd cryf â phartneriaid allweddol. Y llysgenhadon hyn oedd:
- Yr Athro Laura McAllister, cyn bêl-droediwr Cymru ac un o saith is-lywydd UEFA
  - Colin Jackson CBE, enillydd medal arian Olympaidd ac athletwr sy'n Bencampwr Byd
  - Katie Owen, DJ a chyflwynydd o Lundain
  - Bryn Williams, cogydd o fri.

Gwahoddwyd yr unigolion hyn i deithio i Qatar neu'r Unol Daleithiau i gymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau a chynnal cyfweiliadau â'r cyfryngau ar ran Llywodraeth Cymru. Bu'r tîm o llysgenhadon 'Lleisiau Cymru' yn gweithio ochr yn ochr â llysgenhadon Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) ar gyfer Cwpan y Byd 2022, gan ymuno ag Ian Rush a Jess Fishlock.

- 5) **Digwyddiadau Rhyngwladol** – cyfres o ddigwyddiadau (62 i gyd) wedi'u trefnu gan Swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym marchnadoedd targed allweddol Qatar a'r Unol Daleithiau yn ogystal â gwledydd Ewropeaidd fel Gwlad Belg, Iwerddon, Ffrainc a'r Almaen. Roedd y rhain yn amrywio o daith fasnach i Ogledd a De Carolina, ymweliadau gweinidogol, gwyllo digwyddiadau mewn llysgenadaethau a derbyniadau i Gymry ar wasgar. Roedd hefyd yn cynnwys chwe digwyddiad unigol a gynhaliwyd yn Llundain yn Nhŷ Cymru, megis trafodaeth gyda phanel

mewnffuddsoddi ar dechnoleg ariannol, digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a pherfformiad gan Ysgol Gymraeg Llundain ac Ysgol Gynradd Griffin.

## Methodoleg

2.6 Roedd y fethodoleg ar gyfer y gwerthusiad yn cynnwys cyfuniad o gyfweiliadau ansoddol ac ymchwil pen desg. Roedd hyn yn cynnwys:

- Datblygu fframwaith gwerthuso, a oedd yn mapio themâu allweddol yr ymchwil a'r ffynonellau tystiolaeth a'r offer sydd eu hangen ar gyfer casglu data.
- Cyfweiliadau ag 20 o randdeiliaid gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, Llysgenhadon Lleisiau Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC), Chwaraeon Cymru, partneriaid y Gronfa Cefnogi Partneriaid, sefydliadau sy'n cynrychioli cefnogwyr a darlledwyr
- Adolygu dogfennau a data gan gynnwys
  - Data monitro'r Gronfa Cefnogi Partneriaid ac adroddiadau gwerthuso
  - Data a gasglwyd yn erbyn fframwaith mesur marchnata Llywodraeth Cymru
  - Data Llywodraeth Cymru ar yr ymgysylltiad ar-lein â'i llwyfannau:
- ymwelwyr â gwefannau [wales.com](http://wales.com) a [Masnach a Buddsoddi Cymru](#)
- sianeli cyfryngau cymdeithasol
  - *Wales Nation Brand FIFA World Cup Halo Impact Report* (iCrossing, 2023)
  - *Cwpan y Byd PR evaluation report* (Weber Shandwick, 2023)
  - Canfyddiadau o arolwg o ymwelwyr â Chymru (Arolwg galw'r farchnad)

### 3. Dyluniad y gweithgareddau a sut y cawsant eu cyflawni

3.1 Yn yr adran hon, disgrifir canfyddiadau'r gwerthusiad mewn perthynas â dyluniad y gweithgareddau a'r modd y cawsant eu cyflawni. Mae'n ystyried priodoldeb yr amcanion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dull 'Tîm Cymru' (Tîm Cymru) o gyflawni'r amcanion a'r nod o hyrwyddo gwerthoedd Cymru.

#### **Barn ynghylch priodoldeb yr amcanion**

3.2 Roedd nodau Llywodraeth Cymru i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd a'r manteision yn deillio o'r ffaith bod tîm Cymru yn cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2022 yn seiliedig ar bedwar amcan, sef:

- hyrwyddo Cymru
- rhannu ein gwerthoedd
- sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru yn y digwyddiad
- sicrhau gwaddol cadarnhaol a pharhaus o'r buddsoddiad a'r gweithgareddau a gynhaliwyd.

3.3 Datblygwyd y pedwar amcan hyn o dan y faner o ddod â chwaraeon a diwylliant ynghyd. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod cyfuno'r ddwy agwedd hyn ar hunaniaeth Cymru yn ffordd effeithiol o gynrychioli hynodrwydd a moderniaeth Cymru, a bod hyn yn cynnig cyfleoedd newydd i hyrwyddo'r wlad ar lefel ryngwladol.

'Mae'n ymddangos mai asio chwaraeon a diwylliant yw'r cyfuniad mwyaf effeithiol – felly roedd gweithgareddau Cwpan y Byd yn dda yn hynny o beth. Mae cerddoriaeth, celf, diwylliant, ffasiwn a chwaraeon yn bwysig iawn i bobl ifanc yn arbennig.' **Rhanddeiliaid**

3.4 Roedd gan y rhanddeiliaid farn gadarnhaol iawn ynghylch priodoldeb y pedwar amcan a phwysleisiwyd pwysigrwydd cael nodau clir a rennir o'r cychwyn cyntaf. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid yn arbennig fod hyn yn bwysig o ystyried proffil cymharol isel Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Ystyriwyd felly bod datblygu'r amcanion yn hanfodol er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol i Gymru o ran brandio, ymwybyddiaeth fyd-eang ac adeiladu'r genedl.

3.5 Dywedodd y rhanddeiliaid a chynrychiolwyr o sefydliadau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid eu bod yn gallu nodi pa rai o bedwar amcan Llywodraeth Cymru a oedd fwyaf perthnasol i'w nodau strategol eu hunain a dylunio eu gweithgareddau yn unol â hynny. Cyfoethogwyd y broses hon drwy greu a rhannu adnoddau e.e. drwy'r



cyfryngau cymdeithasol, a oedd yn cynnig y potensial i wella eu proffil a'u cyrhaeddiad eu hunain yn ogystal â chyflawni nodau ehangach Llywodraeth Cymru.

- 3.6 Roedd teimlad cryf ymysg yr holl randdeiliaid bod yn rhaid i Gymru fanteisio ar y cyfle i gael ei chynrychioli yng Nghwpan y Byd, gan adeiladu ar y profiad o Bencampwriaethau Pêl-droed Ewrop yn 2016 a 2021 a chynyddu ei phresenoldeb ar y llwyfan byd-eang.

### **Partneriaeth 'Tîm Cymru'**

- 3.7 Er mwyn cefnogi'r amcanion hyn mewn ffordd gydgysylltiedig, datblygodd Llywodraeth Cymru ddull Tîm Cymru o ddylunio a darparu gweithgareddau a nodi cyfleoedd. Ystyriwyd bod y dull 'cyd-greu' yn un o brif lwyddiannau gweithgareddau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac roedd llawer o'r randdeiliaid yn teimlo bod hyn yn cynnig gwaddol i adeiladu arno ar gyfer mentrau yn y dyfodol. Tynnodd y rhanddeiliaid sylw at y dull 'hyblyg ac ystwyth' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru fel nodwedd o'r llwyddiant hwn, gan gynnwys dod ag unigolion a chanddynt sgiliau ac arbenigedd penodol o sefydliadau ar draws y meysydd chwaraeon a diwylliant ynghyd.

'Gweithiodd yr holl bartneriaid yn arbennig o dda gyda'i gilydd ond rhoddodd Llywodraeth Cymru yr hyder i ni i gyd a'r 'olew ar gyfer yr injan' – roedd hynny'n hollbwysig.' **Rhanddeiliad**

- 3.8 Dywedodd y rhan fwyaf o'r partneriaid mai dyma'r tro cyntaf iddynt weld sefydliadau celfyddydol a chwaraeon yn dod ynghyd gyda ffocws mor strategol a chydgyssylltiedig. Fe wnaethant sylwadau ar yr 'ymdeimlad o egni ac ymddiriedaeth', a oedd yn nodweddu'r partneriaethau, a dywedodd y sefydliadau eu bod yn ymwybodol o'u rolau a sut y gallent integreiddio i ddull Tîm Cymru o'r cychwyn cyntaf.
- 3.9 Fe wnaeth llawer o randdeiliaid sylwadau cadarnhaol ar faint y gweithgareddau a gynhaliwyd o fewn cyfnod mor fyr, ar draws y prosiectau Cronfa Cefnogi Partneriaid, yr ymgyrch farchnata estynedig, gweithgareddau Lleisiau Cymru a digwyddiadau rhyngwladol. Dywedodd y rhanddeiliaid fod hyn wedi'i gyflawni o fewn amserlen arbennig o heriol, o ystyried y cyfnod byr rhwng i dîm Cymru fynd drwodd i Gwpan y Byd ym mis Mehefin 2022 a dechrau rowndiau terfynol y

bencampwriaeth ym mis Hydref. Teimlai'r rhanddeiliaid fod rôl partneriaeth Tîm Cymru yn hollbwysig o ran dod â sefydliadau ynghyd ar fyr rybudd.

- 3.10 Mynegwyd barn gadarnhaol gan randdeiliaid ynghylch y 'strwythurau partneriaeth effeithiol', 'amlder cyfarfodydd' a 'chyfathrebu da' gan Lywodraeth Cymru. I rai rhanddeiliaid, roedd proffil uchel Cwpan y Byd Dynion FIFA 2022 a'r amser ers y tro diwethaf i Gymru fod yn rhan o'r gystadleuaeth yn sbardun pellach o ran ysgogi'r parodwydd i ymgysylltu ac, fel y dywedodd un rhanddeiliad, 'i fynd yr ail filltir'. Roedd y rhai a gyfwelwyd hefyd yn gwerthfawrogi pa mor agored oedd y cyfarfodydd i randdeiliaid lle yr oedd sefydliadau wedi rhannu manylion eu gweithgareddau arfaethedig (yn enwedig ym mis Medi 2022), a oedd yn galluogi partneriaid eraill i ystyried sut y gallent gefnogi ei gilydd a chysoni eu gweithgareddau eu hunain i sicrhau'r manteision cyffredinol mwyaf i Gymru.
- 3.11 Teimlai'r rhanddeiliaid y bu ymgysylltu a chydweithredu effeithiol ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth tîm marchnata profiadol, a oedd wedi rhoi'r cyfle i greu effaith gadarnhaol drwy bartneriaeth. Roedd gan randdeiliaid farn gadarnhaol hefyd am yr asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus a gyflogwyd gan Lywodraeth Cymru, a gwnaethant sylwadau ar safon uchel y gefnogaeth, y cyfathrebu a'r profiad o ran hyrwyddo'r gweithgareddau ar lefel ryngwladol.

*'Mae Cymru gam ar y blaen i weddill y DU, mae pethau'n fwy adweithiol mewn manau eraill. Mae Cymru'n genedl fach - mae'n ymddangos bod llywodraeth, cymdeithas sifil, chwaraeon, diwylliant a phartneriaethau masnachol yn cyddynnu.'* **Rhanddeiliad**

- 3.12 Serch hynny, roedd rhai partneriaid o'r farn y gallai'r gwaith o gynllunio gweithgareddau Cwpan y Byd fod wedi dechrau'n gynharach er mwyn cynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer cynnal y gweithgareddau. Er y cydnabuwyd bod Cymru wedi mynd drwodd i gystadleuaeth Cwpan y Byd yn hwyr, dywedodd y rhanddeiliaid hyn fod y dull wedi bod yn rhy adweithiol ac y gallai'r sylfeini a'r egwyddorion ar gyfer Tîm Cymru fod wedi'u datblygu cyn i Gymru fynd drwodd.

### **Hyrwyddo gwerthoedd Cymru**

- 3.13 Roedd y rhanddeiliaid yn ystyried bod datblygu'r datganiad gwerthoedd ochr yn ochr â'r pedwar amcan yn 'edefyn arian'. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod y

datganiad yn rhoi eglurder ac yn cefnogi dull Tîm Cymru o hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol fel gwlad fodern, amrywiol. Ystyriwyd bod y gweithdy partneriaid i ddatblygu'r datganiad gwerthoedd a rennir yn ymarfer 'hynod werthfawr a chynhyrchiol', a oedd yn cydnabod nodau allweddol sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf Llesiant) a blaenoriaethau cenedlaethol eraill megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cymraeg 2050 a strategaeth ryngwladol Cymru. Yn ôl y rhanddeiliaid, roedd y gyfatebiaeth hon yn annog ymrwymiad a ffocws i'r partneriaethau.

'Maen nhw'n werthoedd blaengar sydd â chysylltiad â llawer o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru - annog menywod a merched i gymryd rhan mewn chwaraeon, arweinyddiaeth, llawr gwlad, trechu tlodi, y Gymraeg a'r Ddeddf Llesiant. Mae'n ddatganiad o werthoedd unigryw a dyma'r cyfeiriad iawn yn gyffredinol. Mae'r cyfan yn swnio'n dda, ond mae angen i ni roi'r pethau hyn ar waith hefyd.'

### **Rhanddeiliad**

- 3.14 Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at faterion sensitif ynghylch lleoliad Cwpan y Byd yn Qatar a dadleuon ynghylch i ba raddau y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ymgysylltu â'r gystadleuaeth. Drwy drafodaethau â phartneriaid a staff Llywodraeth Cymru yn Qatar, teimlai'r rhanddeiliaid fod dull gweithredu adeiladol wedi'i fabwysiadu, gan ganolbwyntio ar dir cyffredin rhwng yr hyn y cyfeiriwyd ato gan un rhanddeiliad fel 'balchder dwy wlad fach yn eu treftadaeth a'u diwylliant'. Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod hyn yn rhoi 'lle i gael deialog' a 'rhesymau i ymgysylltu' a bod lefelau da o ddealltwriaeth wedi dod i'r amlwg o ganlyniad.

'Roedd yn teimlo fel proses organig a chynhwysol. Roeddem yn parchu'r wlad lle y cynhaliwyd y gystadleuaeth - ac mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych drefn ar eich materion chi eich hun hefyd.' **Rhanddeiliad**

'Gellid dadlau bod y datganiad gwerthoedd wedi cael ei orfodi ar Lywodraeth Cymru oherwydd lleoliad Cwpan y Byd ond mae wedi helpu i ddiffinio uchelgeisiau Cymru. Mae cyfatebiaeth gref rhwng y gwerthoedd hyn a gwerthoedd sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan ac mae'r ffocws ar gyfranogiad a pherfformiad yn bwysig fel rhan o ddatblygu cynhwysiant.' **Rhanddeiliad**

- 3.15 Dywedodd y rhanddeiliaid fod y datganiad gwerthoedd hefyd wedi cefnogi sefydliadau partner o'r sectorau chwaraeon a diwylliant i nodi eu gwerthoedd eu

hunain. Er enghraifft, teimlai un partner o'r Gronfa Cefnogi Partneriaid ei bod yn bwysig rhannu'r datganiad gwerthoedd gyda'r artistiaid yr oedd yn gweithio â nhw. Nid oedd yr holl unigolion hyn yn cytuno â phresenoldeb Cymru yn Qatar, ond adroddwyd bod y datganiad gwerthoedd wedi helpu i sefydlu tir cyffredin a sicrhau bod artistiaid yn rhan o '*ddeialog gynnil, gan rannu, gwrando a dysgu, a oedd hefyd yn rhan annatod o'r gwerthoedd.*'

### **Gweithgareddau rhyngwladol**

- 3.16 Mae'r adran hon yn crynhoi'r gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a gynhaliwyd y tu allan i Gymru yn y Dwyrain Canol, UDA ac Ewrop.

#### *UDA*

- 3.17 Yn UDA, roedd rhaglen o weithgareddau yn canolbwyntio ar gêm Cymru yn erbyn UDA. Ymwelodd Gweinidog yr Economi â Washington DC i arwain gweithgaredd Cwpan y Byd Llywodraeth Cymru ac i geisio datblygu perthnasoedd â chysylltiadau gwleidyddol a busnes. Roedd yr ymweliad yn cynnwys cyfarfod bord gron gyda mewnfuddsoddwyr, cyfarfod gyda Dirprwy Faer Washington DC, yn ogystal â digwyddiad blaenllaw 'Soccer in the Circle' i ddangos gêm Cymru yn erbyn UDA yng Ngŵyl Dupont.
- 3.18 Cynhaliodd bob un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn rhwydwaith yr UD ei digwyddiadau ei hun i gyd-daro â gêm Cymru yn erbyn UDA. Fe wnaeth tîm UDA yn Efrog Newydd gefnogi S4C i gynnal cyngerdd yn y ddinas yn ogystal â digwyddiadau eraill, gan gynnwys dangosiad o 'Welcome to Wrexham', trafodaethau panel a pharti gwyllo. Cynhaliwyd cystadleuaeth gemau ar-lein, yn gysylltiedig â phencampwriaeth gêm gyfrifiadurol FIFA, yn Atlanta, a chynhaliwyd derbyniadau i fusnesau a Chymry ar wasgar yn Chicago a Los Angeles.

#### *Ewrop*

- 3.19 Cynhaliwyd digwyddiadau ar draws Ewrop hefyd ym Mrwsel, Dulynd, Paris a Berlin. Yn Nulyn, ymunodd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru â Llysgenhadaeth UDA yn Iwerddon i gyd-gynnal dangosiad o gêm Cymru yn erbyn UDA a chynhaliwyd digwyddiad gyda Noel Mooney, Prif Swyddog Gweithredol CBDC, Neville Southall ac Ian Rush. Defnyddiodd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ym Mrwsel y

bencampwriaeth fel llwyfan i gynnal digwyddiad panel, mewn partneriaeth â Chenhadaeth y DU i'r UE, ar amrywiaeth a chynhwysiant mewn pêl-droed gyda siaradwyr o CBDC, yr Uwch Gynghrair a Senedd Ewrop. Yn Ffrainc, gosodwyd baner "C'mon Cymru" wrth fynedfa Llysgenhadaeth Prydain ym Mharis. Roedd y ddau ddigwyddiad yn Berlin yn cynnwys bwyd a diod o Gymru, gyda dros 100 o randdeiliaid yn bresennol ym mhob digwyddiad.

### *Y Dwyrain Canol*

- 3.20 Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Doha a Dubai oedd canolbwynt y gweithgareddau a gynhaliwyd o amgylch y gemau. Bu tîm y Dwyrain Canol yn gweithio gyda phartneriaid i lansio'r gosodwaith Het Fwced ar y Corniche yn Doha i hyrwyddo Cymru yn y bencampwriaeth, i ddarparu cynnwys Cymreig ym Mhafiliwn Gardd a Gŵyl 'UK GREAT' a derbyniad ar thema Gymreig, a gynhaliwyd gan Lysgennad Prydain yn Qatar. Daeth yr Het Fwced yn ffocws i ddigwyddiadau Cymru, gan ymddangos mewn delweddau a ddarlledwyd ar draws y byd, a thrafodir hyn ymhellach yn Adran 4.25.

### *Sicrhau diogelwch cefnogwyr yn Qatar*

- 3.21 Cydnabu'r rhanddeiliaid, er ei fod yn un o amcanion Llywodraeth Cymru, mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn bennaf oedd sicrhau diogelwch cefnogwyr yn Qatar, drwy'r Swyddfa Gartref a phresenoldeb yr heddlu (gan gynnwys swyddogion heddlu o Gymru) yn Qatar.
- 3.22 Teimlai llawer o'r rhanddeiliaid nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud sylwadau ar yr agwedd wrthrychol hon ar y gweithgareddau. Fodd bynnag, roedd y rhanddeiliaid a gynigiodd eu barn ar hyn yn teimlo bod perthynas dda rhwng cefnogwyr pêl-droed Cymru, CBDC, grwpiau sy'n cynrychioli cefnogwyr a Swyddfa Gartref y DU a bod cefnogwyr, yn eu barn nhw, wedi cael eu cadw'n ddiogel yn y bencampwriaeth. Fe wnaeth rhai rhanddeiliaid sylwadau ar y berthynas waith effeithiol rhwng UK FCDO, y Swyddfa Gartref, CBDC a chefnogwyr yng nghydestun cefnogi teuluoedd cefnogwyr a fu farw tra roeddent yn Qatar.

## Cyllid

- 3.23 Cyfanswm y gwariant ar weithgareddau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru oedd tua £3.8m. Roedd hyn yn cynnwys:
- £1.8 miliwn a ddyrannwyd i 19 prosiect y Gronfa Cefnogi Partneriaid
  - Tuag £1.7 miliwn ar gyfer **ymgyrch farchnata estynedig**, gan gynnwys:
    - **ymgyrchoedd digidol brandiau**, i yrru traffig i wales.com, ar draws sianeli lluosog yn y DU, UDA a'r UE yn ogystal â gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus cysylltiedig
    - **marchnata busnes** yn cynnwys partneriaethau gyda'r cyfryngau ac ymgyrchoedd digidol yn y DU, UDA, Qatar a Chymru yn ogystal â digwyddiad Technoleg Ariannol yn Llundain
    - **gweithgareddau marchnata twristiaeth** yn cynnwys partneriaeth ag asiantaethau teithio ar-lein i gynyddu archebion.
  - £310,000 ar gyfer digwyddiadau rhyngwladol a drefnwyd gan swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, yn arbennig yn Qatar ac UDA.
- 3.24 Er mai ychydig o sylwadau a roddodd y rhan fwyaf o randdeiliaid ar lefel gyffredinol y cyllid a ddarparwyd ar gyfer gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, yn gyffredinol dywedwyd bod y gweithgareddau a gomisiynwyd wedi cyflawni allbynnau sylweddol am yr adnoddau a ddarparwyd. Teimlai rhai rhanddeiliaid y gallai mwy o gyllid fod wedi'i ddyrannu i'r gweithgareddau marchnata, tra bod sawl un o'r farn y byddai cael mwy o staff wedi'u lleoli yn Qatar yn ystod y cyfnod cyn y bencampwriaeth wedi bod yn fuddiol.
- 3.25 Wrth fyfyrion ar gyllid ar gyfer eu gweithgareddau eu hunain, teimlai'r rhanddeiliaid yn gyffredinol fod yr adnoddau a ddyrannwyd wedi bod yn ddigonol i'w galluogi i gyflawni'r gweithgareddau a gomisiynwyd. Fodd bynnag, pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid fod yr amser a neilltuwyd gan eu staff a'u partneriaid wedi bod 'y tu hwnt i'r hyn y cawsant eu comisiynu i'w wneud. Dywedodd y rhanddeiliaid eu bod nhw a'u partneriaid wedi bod yn fodlon gwneud hyn oherwydd eu bod yn gweld Cwpan y Byd 2022 fel cyfle 'unwaith mewn oes' o bosibl i hyrwyddo eu gwaith eu hunain a gwaith Cymru i gynulleidfa fyd-eang.
- 3.26 Dywedodd y rhanddeiliaid fod y parodrwydd hwn i 'fynd yr ail filltir' yn golygu bod unigolion yn fodlon ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol (e.e. gweithio oriau hirach) i fanteisio ar y cyfle. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn damcaniaethu efallai na fyddai sefydliadau diwylliannol a chwaraeon o bosibl mor barod i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn y dyfodol sydd â chyrraedd a chynulleidfa lai. Awgryma hyn fod angen ystyried a yw lefel y gweithgareddau gan bartneriaid a welwyd mewn perthynas â Chwpan y Byd yn gynaliadwy, wrth

gynllunio gweithgareddau sy'n ymwneud â digwyddiadau chwaraeon neu ddiwylliannol ar raddfa lai.

- 3.27 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y byddai penderfyniadau cynharach ar gyllid wedi bod yn fuddiol, er eu bod yn cydnabod bod Cymru wedi mynd drwodd i Gwpan y Byd yn hwyr a bod hyn yn golygu mai prin oedd yr amser a oedd ar gael i gomisiynu gweithgareddau.

## **4. Allbynnau, deilliannau ac effaith**

- 4.1 Mae'r adran hon yn archwilio allbynnau, deilliannau ac effaith y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n trafod y newidiadau yn amlygrwydd a phroffil Cymru, y canfyddiadau o Gymru a'i gwerthoedd o ganlyniad i'r gweithgareddau marchnata estynedig, prosiectau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid a Lleisiau Cymru a'r effeithiau diwylliannol ac economaidd yn sgil hynny.

### **Amlygrwydd, proffil a chanfyddiadau o Gymru**

- 4.2 Roedd yr holl rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn credu bod y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu amlygrwydd a phroffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol yn ystod ac ar ôl Cwpan y Byd; ategir y safbwyntiau hyn gan dystiolaeth o ymgysylltiad cynyddol ag amrywiol lwyfannau Llywodraeth Cymru (gweler Adrannau 4.5-15) a ysgogwyd gan yr ymgyrchoedd marchnata estynedig, un o brif ffocysau gweithgareddau Cwpan y Byd.
- 4.3 Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn bod proffil Cymru yn hanesyddol wedi bod yn is na phroffil gwledydd eraill y DU ac yn credu bod amlygrwydd Cymru yng Nghwpan y Byd wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r genedl ymhlith y cynulleidfaoedd dan sylw. Fodd bynnag, pwysleisiodd y rhanddeiliaid hefyd y byddai angen ymdrechion parhaus gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid i adeiladu ar y cynnydd hwn mewn ymwybyddiaeth ac amlygrwydd.
- 4.4 Darparodd rhai o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd dystiolaeth anecdotaidd bod ymwybyddiaeth o Gymru wedi cynyddu ymhlith eu cynulleidfaoedd targed allweddol. Ymhlith yr enghreifftiau roedd cynnydd yn y diddordeb yng Nghymru a pharodrwydd i gydweithio â Llywodraeth Cymru ar ddigwyddiadau yn y dyfodol ymhlith diplomyddion tramor a swyddogion y llywodraeth. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cydnabod ei bod yn rhy gynnar i asesu hyn yn llawn, ac mai codi ymwybyddiaeth oedd y cam cyntaf tuag at newid canfyddiadau. Serch hynny, mae rhai o ganfyddiadau'r arolygon a gyflwynir isod yn awgrymu bod gweithgareddau marchnata estynedig Llywodraeth Cymru wedi ennyn ymatebion cadarnhaol gan y rhai a ymgysylltodd.



'Roedd yn hynod ddiddorol, roedd pobl yn frwd iawn yr hyn yr oeddem yn ei gynnal, roedden ni'n amlwg iawn. Roedd gan bobl ddiddordeb yn yr hyn yr oedd Cymru'n ei wneud.' **Rhanddeiliaid**

### *Allbynnau prosiectau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid*

4.5 Darparodd yr 19 o brosiectau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid ddata monitro'n ymwneud â'u hallbynnau a'u cyflawniadau yn seiliedig ar ganllawiau a ddarparwyd iddynt gan Lywodraeth Cymru. Mae'r data o'r adroddiadau hyn wedi'i goladu fel rhan o'r gwerthusiad hwn a, lle y bo'n bosibl, mae'r ffigurau wedi'u hagregu. Dengys y data monitro a gasglwyd gan brosiectau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid:<sup>4</sup>

- bod cyfanswm o **2,217 o ddigwyddiadau** wedi'u cynnal gan bartneriaid y Gronfa Cefnogi Partneriaid, gyda **321,274 o bobl yn cymryd rhan** neu'n bresennol ynddynt
  - Roedd o leiaf 248,545 o'r cyfranogwyr hyn yn blant a phobl ifanc<sup>5</sup>
- **bod 91,403 o ymwelwyr** wedi mynychu dwy arddangosfa a ariannwyd drwy'r Gronfa Cefnogi Partneriaid
  - Yr arddangosfeydd hyn oedd *Lleisiau'r Wal Goch* gan Amgueddfa Cymru ac *Expo'r Wal Goch*
- bod y gweithgareddau hyn, a gafodd fwy o sylw yn sgil gweithgareddau cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru, wedi arwain at:
  - **gyhoeddi 707 o erthyglau neu gyfweiliadau** gan bartneriaid y Gronfa Cefnogi Partneriaid yn ymwneud â'u gweithgareddau<sup>6</sup>
- **bod 151 o bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol** yn ymwneud â'u gweithgareddau wedi'u creu gan bartneriaid y Gronfa Cefnogi Partneriaid
  - Gyda'i gilydd, cyrhaeddodd y postiadau hyn dros **5 miliwn** o bobl
  - **Ysgogodd y rhain 182,644 o ryngweithiadau** (e.e. hoffi, ymatebion, ailbostio)
  - **Cafodd cynnwys fideo** a bostiwyd gan bartneriaid y Gronfa Cefnogi Partneriaid **ei weld 48,306 o weithiau**

---

<sup>4</sup> Mae'r data hyn yn seiliedig ar ddata monitro a gyflwynwyd gan 16 o blith 19 o brosiectau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid o fewn amserlen y gwerthusiad hwn. Ni ddarparodd pob un o 16 prosiect y Gronfa Cefnogi Partneriaid hyn ddata mewn perthynas â phob un o'r eitemau a restrir yn yr adran hon. Awgryma hyn y gallai'r niferoedd cyffredinol fod wedi bod yn uwch na'r rhai a gyflwynir yma.

<sup>5</sup> Roedd cyfran sylweddol o'r rhain yn cynnwys y 238,000 o blant o 1,200 o ysgolion a ymunodd â Jamborï Urdd Gobaith Cymru.

<sup>6</sup> Roedd 601 o'r rhain yn ymwneud â gweithgareddau Urdd Gobaith Cymru a 52 yn ymwneud â gweithgareddau Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

- **bod cynnwys ar-lein** yn ymwneud â gweithgareddau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid **wedi cael ei weld 48,268 o weithiau.**

4.6 Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos cyrhaeddiad sylweddol gweithgareddau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid. Pwysleisiodd llawer o'r partneriaid fod eu cyrhaeddiad a'u hymgysylltiad ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod Cwpan y Byd, a bod hyn wedi cynyddu ac ehangu yn sgil gweithgareddau cyfathrebu Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.

#### *Allbynnau ymgyrch Brand Cymru Wales*

4.7 Rhagorodd ymgyrch brand Cymru Wales Llywodraeth Cymru ar ei thri phrif darged o ran allbynnau'n ymwneud â chynnydd mewn traffig i [wales.com](https://wales.com) a chyfleoedd i weld cynnwys a fideos sy'n ymwneud â'r **brand Cymru Wales**. Gwelwyd hefyd gynnydd yn y traffig i wefan [Masnach a Buddsoddi Cymru](https://www.masnach.org) a'r ymgysylltiad â **chyfryngau cymdeithasol** Llywodraeth Cymru. Mae data sy'n ymwneud â phob un o'r rhain wedi'u nodi isod.

- Rhagorwyd ar y targed o gynyddu traffig i [wales.com](https://wales.com). Gwelwyd cynnydd o 600 y cant yn y traffig drwy gyfryngau y telir amdanynt yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022 o gymharu â'r un cyfnod yn 2021. Cynyddodd y traffig drwy ymgysylltu 'organig' (e.e. drwy chwiliadau ar-lein) 167 y cant dros yr un cyfnod.
- Rhagorwyd ar y targed o gynhyrchu 100 miliwn o gyfleoedd i weld cynnwys a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'r **brand Cymru Wales** erbyn mis Rhagfyr 2022, a chynhyrchwyd dros 105 miliwn o gyfleoedd i weld yn cael eu cynhyrchu (6 y cant yn uwch na'r targed)
  - Erbyn mis Mawrth 2023, roedd y cyfleoedd i weld wedi cyrraedd bron i 150 miliwn (49 y cant yn uwch na'r targed)
- Erbyn mis Rhagfyr 2022, rhagorwyd hefyd ar y targed o 32 miliwn o ymweliadau â **chynnwys fideo** a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda'r fideos wedi'u gweld 46 miliwn o weithiau
  - Erbyn mis Mawrth 2023, roeddent wedi cael eu gweld dros 47 miliwn o weithiau (50 y cant yn uwch na'r targed)
- Arweiniodd **gweithgareddau Llywodraeth Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol** yn ymwneud â Chwpan y Byd at 2 filiwn o argraffiadau yn ystod y bencampwriaeth. Defnyddiwyd cyfres o hashnodau gan gyfrifon Llywodraeth Cymru yn ystod y bencampwriaeth a gafodd eu defnyddio mewn

4,800 o bostiadau a oedd â'r potensial, o'u cyfuno, i gyrraedd bron i 8.5 miliwn o bobl.

- Ochr yn ochr â gwefan wales.com, nod y gweithgareddau marchnata estynedig oedd gyrru traffig i wefan [Masnach a Buddsoddi Cymru](#). Cynyddodd traffig i'r safle hwn 39 y cant yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022 o gymharu â'r un cyfnod yn 2021, sydd eto'n ddeiliant cadarnhaol yn erbyn yr amcanion.

*Allbynnau o ran sylw ar-lein, yn y cyfryngau darlledu ac yn y cyfryngau print*

4.8 Dengys canfyddiadau adroddiad *Cwpan y Byd PR evaluation* (Weber Shandwick, 2023) fod gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â gweithgareddau a digwyddiadau Cwpan y Byd wedi arwain at:

- 591 eitem o sylw (ar-lein, yn y cyfryngau print a'r cyfryngau darlledu) mewn nifer o farchnadoedd targed gan gynnwys y DU, yr UE, UDA, Canada, Qatar, India a Tsieina.
  - Roedd 463 yn ymwneud â gweithgareddau gweinidogol
  - Roedd 241 o'r rhain yn ymwneud ag amrywiaeth mewn perthynas â Chymru
- Roedd peth o'r sylw hwn yn ymwneud â chyfweliadau a gynhaliwyd gan Weinidogion a llysgenhadon Lleisiau Cymru
  - Trefnwyd 66 o gyfweliadau gyda sefydliadau cyfryngau rhyngwladol gan gynnwys BBC World, Al Jazeera, AFP a Reuters
- Amcangyfrifwyd bod y 540 o eitemau hyn wedi creu 8 biliwn o 'gyfleoedd i weld' y sylw hwn.
- Cynnydd sylweddol yn nifer y chwiliadau ar-lein am dermau sy'n ymwneud â Chymru ymhlith ymwelwyr â wales.com, gan gynnwys cynnydd pumplyg yn nifer y chwiliadau gan ymwelwyr o UDA a chynnydd deublyg gan ymwelwyr o'r DU.<sup>7</sup>

---

<sup>7</sup> Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r 350 o dermau chwilio a ddefnyddiwyd amlaf (e.e. lleoliad, anthem genedlaethol, llywodraethu, demograffeg Cymru) a yrrodd draffig y we i wales.com yn ystod y ddwy flynedd hyd at fis Tachwedd 2022. Er enghraifft, o gymharu â chyfartaledd misol y ddwy flynedd flaenorol, bu cynnydd o bedwar y cant mewn chwiliadau am 'Gymru' ymhlith ymwelwyr o UDA yn ystod mis Tachwedd 2022 a chynnydd cyfatebol o ddau y cant ymhlith ymwelwyr o'r DU. Gwelwyd cynnydd tebyg ar gyfer llawer o dermau chwilio eraill.


## Cyfeiriadau at Gymru ar-lein

- 4.9 Mae'r adroddiad *'Wales Nation Brand FIFA World Cup Halo Impact Report'* (iCrossing, 2023) yn cyflwyno data ar nifer y cyfeiriadau at Gymru, gan gynnwys dinasoedd a threfi Cymru, ar-lein. Mae'r data yn yr adroddiad yn galluogi cymharu nifer y cyfeiriadau at Gymru yn ystod chwe mis cyntaf 2022 (y cyfeirir ato fel H1) ag ail hanner y flwyddyn, pan gynhaliwyd Cwpan y Byd, (y cyfeirir ato fel H2) yn ogystal â chyfran Cymru o'r holl gyfeiriadau at wledydd y DU. Mae'r adroddiad yn edrych ar gyfeiriadau at Gymru ar-lein o fewn y DU, Ewrop ac yn fyd-eang ac yn ystyried cyfeiriadau at Gymru mewn cyd-destunau penodol. Dengys yr adroddiad y canlynol:
- Yn fyd-eang, roedd 40 y cant yn fwy o gyfeiriadau at Gymru (gan gynnwys dinasoedd a threfi Cymru) ar-lein yn ail hanner 2022 (H2) o gymharu â'r hanner cyntaf (H1). Cynyddodd y sôn am Gymru o 18.2m yn H1 i 25.6m yn H2.
    - Roedd y twf hwn mewn cyfeiriadau at Gymru yn sylweddol uwch na'r newidiadau a adroddwyd yng gwledydd eraill y DU.
      - ganlyniad, cynyddodd cyfran Cymru o'r holl gyfeiriadau byd-eang at wledydd y DU o 5 y cant yn H1 i 7 y cant yn H2.
    - Gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf yn nifer y cyfeiriadau yn Qatar (cynnydd o 164 y cant, ond o linell sylfaen isel iawn), yna Lloegr (cynnydd o 35 y cant) ac yna Ffrainc (cynnydd o 30 y cant).
    - Cynyddodd y cyfeiriadau at Gymru yn UDA 18 y cant, sydd eto'n sylweddol uwch na'r twf yn y cyfeiriadau a adroddwyd ar gyfer gwledydd eraill y DU.
  - Ar lefel y DU, roedd 21 y cant yn fwy o gyfeiriadau at Gymru yn H2 o gymharu â H1 yn 2022.
    - Fel uchod, roedd y twf yn nifer y cyfeiriadau yn uwch na gwledydd eraill y DU gan arwain at gynnydd yng nghyfran Cymru o'r holl gyfeiriadau at wledydd y DU, o 8 y cant i 10 y cant.
  - Yn Ewrop, roedd 14 y cant yn fwy o gyfeiriadau at Gymru yn H2 o gymharu â H1 yn 2022.
    - Roedd y twf hwn yn debyg i'r cynnydd o 12 y cant mewn cyfeiriadau at yr Alban yn Ewrop ond roedd yn uwch na gwledydd eraill y DU. Tyfodd cyfran Cymru o'r holl gyfeiriadau at wledydd y DU yn Ewrop o 6 y cant i 9 y cant.
- 4.10 Er nad yw'n bosibl priodoli'r cynnydd uchod yn gyfan gwbl i weithgareddau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, mae hyn yn arwydd defnyddiol o newidiadau mewn ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o Gymru yn y cyfnodau cyn ac

ar ôl y bencampwriaeth. Awgryma'r canfyddiadau y gallai presenoldeb Cymru yng Nghwpan y Byd, a'r gweithgareddau cysylltiedig fod wedi creu mwy o ymwybyddiaeth o Gymru ond mae'n bwysig cydnabod y gallai ffactorau eraill fod wedi cyfrannu at y newidiadau hyn hefyd (e.e. diddordeb yn y gyfres 'Welcome to Wrexham' ar Disney+). Fodd bynnag, byddai angen olrhain y math hwn o ddata yn barhaus i weld a yw unrhyw newidiadau'n cael eu cynnal.

4.11 Dengys Ffigur 1 isod y newid yn nifer y cyfeiriadau at Gymru, ei threfi a'i dinasoedd, ar-lein rhwng hanner cyntaf ac ail hanner 2022.

**Ffigur 1. Cyfeiriadau at Gymru (gan gynnwys dinasoedd a threfi Cymru) ar-lein yn y cyfnodau Ionawr – Mehefin a Gorffennaf – Medi 2022**



Ffynhonnell: Wales Nation Brand FIFA World Cup Halo Impact Report (iCrossing, 2023)

4.12 Mae *Wales Nation Brand FIFA World Cup Halo Impact Report* (iCrossing, 2023) hefyd yn archwilio newidiadau yn nifer y cyfeiriadau at Gymru yng nghyd-destun diwydiannau allweddol a themâu allweddol. O ran diwydiannau allweddol, dengys yr adroddiad:

- Fod y cyfeiriadau at Gymru wedi cynyddu rhwng H1 a H2 yn 2022 yng nghyd-destun diwydiannau allweddol gan gynnwys deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, Ynni a'r Amgylchedd, Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol, Technoleg a Thwristiaeth.
  - Fodd bynnag, nid oedd y twf hwn yn sylweddol uwch na'r hyn a welwyd yng ngwledydd eraill y DU
- Gwelwyd lleihad yn y cyfeiriadau at Gymru yng nghyd-destun Diwydiannau Creadigol, Bwyd a Diod a Gwyddorau Bywyd.

4.13 O ran themâu allweddol, dengys yr adroddiad:

- Fod y cyfeiriadau at Gymru (gan gynnwys ei dinasoedd a'i threfi) yng nghydestun teithio, busnes, cynaliadwyedd a thalent wedi cynyddu rhwng hanner cyntaf ac ail hanner 2022.
  - Fodd bynnag, nid oedd y cynnydd yn y cyfeiriadau at Gymru yn wahanol iawn i'r cyfeiriadau at Loegr a'r Alban.
- Bod y cyfeiriadau at Gymru (gan gynnwys ei dinasoedd a'i threfi) yng nghydestun llesiant wedi lleihau, er bod hyn hefyd yn wir am wledydd eraill y DU.

4.14 Nid yw'r data hyn yn awgrymu bod cysylltiad cryf iawn rhwng y cynnydd cyffredinol yn y cyfeiriadau at Gymru a'r diwydiannau neu'r themâu allweddol a restrir uchod.

4.15 Mae newidiadau yn y teimladau a fynegwyd yn y cyfeiriadau at Gymru ar-lein hefyd yn cael eu dadansoddi yn yr adroddiad *Wales Nation Brand FIFA World Cup Halo Impact Report*, gan gymharu lefel y cyfeiriadau cadarnhaol, negyddol a niwtral at Gymru mewn sgysiau yn ystod hanner cyntaf ac ail hanner 2022. Noda'r adroddiad:

- Y bu cynnydd o 18 y cant yn y cyfeiriadau cadarnhaol at Gymru a gostyngiad o 10 y cant yn y cyfeiriadau negyddol at Gymru yn ail hanner 2022 o gymharu â'r hanner cyntaf.
- Bod y cyfeiriadau cadarnhaol at Gymru o'r tu allan i Gymru a Lloegr 31 y cant yn uwch yn ail hanner 2022, o gymharu â hanner cyntaf y flwyddyn.
  - Fodd bynnag, roedd y cyfeiriadau negyddol hefyd 22 y cant yn uwch yn ail hanner y flwyddyn.

#### *Canfyddiadau o Gymru: Arolwg Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth Croeso Cymru*

4.16 Mae Croeso Cymru yn cynnal gwaith ymchwil blynyddol ymhlith ei farchnadoedd blaenoriaeth i lywio ei waith o hyrwyddo Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol fel cyrchfan. Edrychodd *Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth Croeso Cymru - y DU* (Croeso Cymru, 2023) ar ganfyddiadau arolwg o Farchnad y DU ac roedd yn cynnwys cwestiynau'n ymwneud ag effaith Cwpan y Byd ar y canfyddiadau o Gymru. Dangosodd canfyddiadau'r arolwg fod:

- Dwy ran o dair o'r ymatebwyr wedi gweld rhyw fath o sylw yn y cyfryngau i Gymru yn ystod Cwpan y Byd gan gynnwys:
  - Gwyllo un o gemau Cymru (38 y cant)
  - Sylw yn y cyfryngau i dîm neu gefnogwyr Cymru (26 y cant), hysbysebion

- Gweld ffilm hyrwyddo am Gymru yn ymwneud â'r bencampwriaeth (13 y cant)
- Gweld math arall o hysbysebion am Gymru mewn perthynas â'r bencampwriaeth (13 y cant)
- Roedd preswylwyr Cymru yn fwy tebygol o fod wedi gweld pob math o ddarllediadau o Gymru yn ystod y bencampwriaeth, tra bod teuluoedd yn fwy tebygol na'r rhai a oedd wedi ymddeol neu bobl annibynnol hŷn o fod wedi gweld hysbysebion neu ffilm hyrwyddo. Roedd ymgysylltiad â'r sylw i Gymru yn y cyfryngau hefyd yn uwch ymhlith y rhai â chysylltiad â Chymru heblaw cenedligrwydd.<sup>8</sup>

Dangosodd canfyddiadau'r arolwg fod:

- 80 y cant o'r ymatebwyr wedi ymgysylltu â Chymru ar ryw lefel o ganlyniad i wyllo darllediadau o gemau pêl-droed neu weld Cymru'n cael ei hyrwyddo yn ystod Cwpan y Byd.
  - Y prif fath o ymgysylltu oedd gwyllo a chefnogi'r tîm yn y bencampwriaeth (36 y cant) neu siarad am Gymru ag eraill (27 y cant)
- Roedd y niferoedd a ddywedodd eu bod wedi gwyllo gêm Cymru a chefnogi'r tîm ar ei uchaf ymhlith trigolion Cymru
- Roedd cyfran is, ond nodedig, o'r rhai a welodd Gymru yng Nghwpan y Byd wedi:
  - Ymweld â gwefan (14 y cant) neu safle/tudalen cyfryngau cymdeithasol (14 y cant) a oedd yn cynnwys gwybodaeth am Gymru
  - Chwilio (13 y cant), postio neu rannu gwybodaeth (13 y cant) am Gymru ar-lein neu ar y cyfryngau cymdeithasol.<sup>9</sup>
- Dywedodd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (46 y cant) a welodd ryw fath o sylw i Gymru yn ystod Cwpan y Byd ei fod wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy cadarnhaol am Gymru (dywedodd 52 y cant na chafodd unrhyw effaith ar eu canfyddiadau).
  - Dywedodd 63 y cant o deuluoedd ei fod wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy cadarnhaol am Gymru.<sup>10</sup>

<sup>8</sup> Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol wnaethoch chi eu gweld neu eu gwneud mewn perthynas â Chymru yng Nghwpan Pêl-droed y Byd Dynion N=1,136

<sup>9</sup> Pa un, os o gwbl, o'r canlynol wnaethoch chi o ganlyniad i weld hyrwyddiadau neu sylw i Gymru yn ystod Cwpan y Byd? N=707

<sup>10</sup> Cwestiwn: Sut, os o gwbl, y mae hyrwyddiad a sylw am Gymru yng Nghwpan y Byd wedi effeithio ar eich canfyddiadau o Gymru? N=707

*Tystiolaeth ansoddol gan randdeiliaid ynghylch amlygrwydd, proffil a chanfyddiadau o Gymru*

- 4.17 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod y strategaethau marchnata estynedig hyn wedi rhoi mwy o amlygrwydd a sylw i Gymru a chawsant eu hatgyfnerthu gan ddigwyddiadau unigol fel Rob McElhenney yn siarad Cymraeg yng Ngŵyl *Cymry i'r Byd* yn Efrog Newydd a chyfweliad Cymraeg Ben Davies, aelod o dîm pêl-droed Cymru - gydag is-deitlau Saesneg - yn cael ei ddangos ar deledu rhwydwaith. Dywedodd y rhanddeiliaid fod Cymru a'i gwerthoedd wedi cael mwy o sylw nag mewn pencampwriaethau blaenorol a bod mwy o ddiddordeb gan y wasg a chynhyrchwyr o wahanol blatfformau i hyrwyddo stori Cymru.
- 4.18 Mae tystiolaeth o'r data monitro a gasglwyd gan bartneriaid y Gronfa Cefnogi Partneriaid hefyd yn dangos eu bod wedi llwyddo i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac ymgysylltu â nhw, a thrwy hynny godi ymwybyddiaeth o Gymru drwy eu hamrywiol weithgareddau (gweler Adran 4.5). Yn ogystal â hynny, mae rhywfaint o dystiolaeth ansoddol hefyd bod gweithgareddau partner y Gronfa Cefnogi Partneriaid yn creu canfyddiadau cadarnhaol o Gymru. Cyfeiriodd llawer o randdeiliaid at weithgareddau partneriaid sy'n helpu i greu canfyddiad 'unigryw' o Gymru o'i gymharu â gwledydd eraill y DU a nodir sawl enghraifft isod.



## Astudiaeth achos 1: Gweithgareddau Cronfa Cefnogi Partneriaid Urdd Gobaith Cymru

Drwy gyllid y Gronfa Cefnogi Partneriaid, mae'r Urdd wedi cyflawni prosiectau gyda'r nod o hyrwyddo Cymru yn fyd-eang a rhannu gwerthoedd y mudiad gyda phobl ifanc. Er enghraifft, cymerodd 238,000 o blant ledled Cymru ran mewn jamborî a oedd yn gydgyhyrchiad rhwng yr Urdd, S4C, Boom Cymru a BBC Cymru, a gafodd ei ffrydio'n fyw.




Cafodd fideo o Dafydd Iwan yn canu 'Yma o Hyd' gyda'r plant ei weld 123,000 o weithiau ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Roedd elfen arall o ymgysylltu ag ysgolion yn cynnwys sioe deithiol 5 wythnos a ymwelodd â 23 o ysgolion cynradd y chwaraewyr yng ngharfan Cymru, gan gynnwys 6 ysgol gynradd yn Lloegr fel rhan o'u sioe deithiol. Cymerodd 5,809 o blant ran mewn gweithdai a chyflwyniadau.



Gweithiodd yr Urdd ar lefel ryngwladol hefyd yn Qatar, Dubai, a'r Unol Daleithiau. Cynhaliwyd gweithdai chwaraeon a chelf mewn 3 ysgol yn Doha a Dubai gan ymgysylltu â chyfanswm o 1080 o bobl ifanc a chefnogwyd cyfnewidfa artistiaid ifanc yn Washington.



Bu'r Urdd yn gweithio ochr yn ochr â 'Celfyddydau Rhyngwladol Cymru' i fynd â Chôr Dyffryn Clwyd, côr buddugol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2022 i Qatar. Roedd ymweliad y côr yn cynnwys perfformiadau mewn digwyddiadau gweinidogol, perfformiadau ar y cyfryngau a chan gefnogwyr gyda Dafydd Iwan a'r Barry Horns ac ymgysylltu â chefnogwyr Cymru a chefnogwyr rhyngwladol yn lleoliad yr Het Fwced a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y côr sylw ar amrywiol blatfformau gyfryngau, gan gynnwys BBC News, PA a Qatar Television, Telegraph a Sky News.



*'Roedd côr yr Urdd yn anhygoel ac ym mhobman yn Qatar, yn cyflwyno cerddoriaeth Cymru a chanu yn yr iaith Gymraeg. Gwnaeth gyfraniad mawr at ddangos sut y gallwch ddangos eich hunaniaeth fel cenedl wahanol gyda diwylliant gwahanol.'*  
Rhanddeiliad

## Astudiaeth achos 2: Gweithgareddau Cronfa Cefnogi Partneriaid Cymru Fyd-eang

**Gweithgareddau:** Cynhyrchodd y rhaglen Cymru Fyd-eang 10 fideo 'Astudio yng Nghymru' gyda chyllid y Gronfa Cefnogi Partneriaid a oedd yn cynnwys 11 o brifysgolion a cholegau a oedd yn cynnwys myfyrwyr Cymreig a rhyngwladol gan ddathlu amrywiaeth myfyrwyr Cymru yn seiliedig ar themâu e.e. Croeso i Gymru, Astudio yng Nghymru, Byw yng Nghymru. Rhannodd Cymru Fyd-eang adnoddau gyda phrifysgolion unigol a cholegau AB i'w galluogi i hyrwyddo'r negeseuon ymhellach a chynnal eu digwyddiadau eu hunain ar thema Cwpan y Byd.



**Allbynnau:** Edrychwyd ar fideos Cymru Fyd-eang bron i 7,000 o weithiau a llwyddodd y gweithgareddauar y cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd dros 47,000 o bobl. Dyblodd yr ymweliadau â gwefan Cymru Fyd-eang i dros 5,000 yn ystod cyfnod 6 wythnos Cwpan y Byd o gymharu â 2,500 yn y 6 wythnos flaenorol.



**Cynaliadwyedd:** Noda Cymru Fyd-eang y bydd y fideos yn parhau i gael eu defnyddio yn y dyfodol i hyrwyddo Cymru ac Astudio yng Nghymru drwy wefan Astudio yng Nghymru.



**Gwaddol:** Wedi hynny daeth Cymru Fyd-eang yn noddwr tîm hoci Dynion Cymru yng Nghwpan y Byd 2023 yn India, i hyrwyddo'r ymgyrch 'Astudio yng Nghymru' ymhellach.

## Astudiaeth achos 3: Gweithgareddau Cronfa Cefnogi Partneriaid Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Nod Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (CRhC) oedd cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru drwy gydol Cwpan y Byd a hyrwyddo Cymru ar lefel ryngwladol. Nod rhaglen CRhC oedd arddangos gwerthoedd diwylliant, chwaraeon a llesiant Cymru drwy rym y celfyddydau.



Cynhaliwyd gweithgareddau ar draws Qatar, Gogledd America, Ewrop a Dubai gan ddathlu diwylliant Cymru ar ffurf cyngherddau, ffilm, murluniau awyr agored a cherddoriaeth. Roedd y prif weithgareddau a gynhaliwyd yn cynnwys.

### Qatar - Peaceful Progress



Bryce Davies yw'r enw y tu ôl i'r sefydliad graffiti Peaceful Progress yng Nghaerdydd. Ynghyd â'r artist o Gymru, Hannah McGree, cafodd murlun awyr agored newydd ei beintio ar wal ym Mhentref Diwylliannol Katara, a gomisiynwyd gan British Council Qatar a Street Child UK. Cefnogwyd y ddau artist gan CRhC a chawsant eu cynnwys yn yr ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus.



### Gogledd America - Cyngerdd S4C

Cynhaliodd S4C gyngerdd yn Efrog Newydd gyda llwyfan a ddarparwyd gan CRhC, drwy eu cyswllt yn On the Move, sef Tamizdat a gafodd fisas ar gyfer UDA. Ym mis Medi 2022, mewn cyfarfod a gynhaliwyd gan CRhC, bu Prif Weithredwr S4C, Sian Doyle a Chynrychiolydd Diwylliannol yr Unol Daleithiau yn y DU yn trafod y cyngerdd.




### Ewrop- Rhys a Meinir yn Nhŷ Cymru yn y South Bank

Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, trefnodd CRhC ddangosiad o'r ffilm wedi'i hanimeiddio, 'Rhys a Meinir', gan Bait Studios. Mynychwyd y dangosiad gan Lysgenadaethau'r Iseldiroedd, Awstria, Canada, Québec, Fietnam, Slofenia, Iwerddon, a'r Alban.



### Dubai- Sywel Nyw

Trefnodd CRhC a Global Welsh i'r cerddor a'r cynhyrchydd Sywel Nyw berfformio ochr yn ochr â Gwenno Morgan mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn Llysoedd Hadaeth y DU yn Dubai.



**Effaith: Gyda'i gilydd, cyrhaeddodd y gweithgareddau 854.3 miliwn o bobl drwy bartneriaeth cysylltiadau cyhoeddus a chyrrhaeddodd 349,517 o bobl mewn 43 o wledydd drwy ymgyrchoedd digidol. Cynhyrchwyd 52 eitem o sylw yn y cyfryngau drwy'r gweithgareddau. Cefnogwyd 51 o artistiaid drwy'r gweithgareddau.**

## Astudiaeth achos 4: Gweithgareddau Cronfa Cefnogi Partneriaid Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Trefnodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) sawl gweithgaredd ar draws Cymru i ddangos cefnogaeth i dîm Cymru drwy gydol Cwpan y Byd.

### Gŵyl Cymru

Mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, cynhaliodd CBDC dros 300 o ddigwyddiadau Gŵyl Cymru ar draws y byd. Cynhaliwyd digwyddiadau ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol a 40 o ddigwyddiadau rhyngwladol gan gynnwys ym Montreal, Efrog Newydd, Dubai a Munich.



### Digwyddiadau Ymgysylltu ag Ysgolion

Drwy gydol Cwpan y Byd, trefnodd CBDC ddigwyddiadau a gynhaliwyd mewn ysgolion ledled Cymru gyda'r nod o hyrwyddo diwylliant Cymru drwy chwaraeon.



### Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol yr Hetiau Bwced

Gosodwyd modelau hetiau bwced lliwgar mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru i gynrychioli cefnogwyr pêl-droed Cymru a gafodd eu hannog i rannu lluniau ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Tîm Cymru.



### Pecynnau Cartref Cwpan y Byd

Crëwyd pecynnau cartref ar gyfer teuluoedd â demograffeg targed cofrestredig yng Nghymru. Roedd y pecynnau hyn yn darparu gwybodaeth am Gwpan y Byd ac yn anelu at hyrwyddo tîm Cymru yn Qatar.

**Effaith: Dosbarthwyd cyfanswm o 1083 o Becynnau Ysgol gan ymgysylltu â 12,633 o unigolion drwy ddigwyddiadau a gynhaliwyd mewn 428 o ysgolion mewn 16 awdurdod lleol. Dosbarthwyd 4681 o becynnau cartref (bron ddwywaith y targed o 2500) a dosbarthwyd 45 o becynnau brandio i Leoliadau Gŵyl Cymru. Cynhyrchodd y gweithgareddau hyn 21 o eitemau yn y cyfryngau a ddarllledwyd ar dair sianel deledu ac 13 o erthyglau ar y We**

## **Gwerthoedd a diwylliant**

4.19 Mae'r adran hon yn archwilio data sy'n ymwneud â deilliannau ac effaith y gweithgareddau ar y canfyddiadau o werthoedd a diwylliant Cymru. Mae hyn yn cynnwys data sy'n seiliedig ar gyfeiriadau ar-lein at Gymru yng nghyd-destun saith nod llesiant cenedlaethol Cymru a data ansoddol yn seiliedig ar gyfweiliadau â rhanddeiliaid ar effaith ganfyddedig y gweithgareddau.

### *Cyfeiriadau at Gymru yng nghyd-destun y nodau llesiant cenedlaethol*

4.20 Edrychodd yr adroddiad *Wales Nation Brand FIFA World Cup Halo Impact Report* (iCrossing, 2023) ar y newidiadau yn nifer y cyfeiriadau at Gymru yng nghyd-destun pob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol. Dengys y canfyddiadau y canlynol:

- Rhwng hanner cyntaf ac ail hanner 2022, bu cynnydd yn y cyfeiriadau at Gymru yng nghyd-destun chwech o blith y saith nod llesiant cenedlaethol, sef cymunedau llewyrchus, cydnerth, iachach, mwy cyfartal, cydlynus a diwylliant bywiog.
- Gwelwyd gostyngiad yn y cyfeiriadau at Gymru yng nghyd-destun un nod llesiant, sef Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.
  - Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod cyfeiriadau at Gymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang wedi bod yn uwch ar ddechrau 2022, oherwydd y sylw mawr a roddwyd i'r ffaith bod ffoaduriaid o Wcráin yn cael eu croesawu i Gymru. Lleihaodd y cyfeiriadau at Gymru yn y cyd-destun hwn yn ail hanner 2022 oherwydd bod llai o drafodaeth ar y pwnc hwn.

4.21 Awgryma'r canfyddiadau hyn y bu cynnydd yn nifer y bobl a gyfeiriodd at Gymru yng nghyd-destun y saith nod llesiant cenedlaethol yn ystod ail hanner 2022, a allai fod wedi'i ysgogi gan yr ymgyrch farchnata estynedig a'r ffocws ar werthoedd Cymru drwy'r datganiad gwerthoedd. Gall hyn awgrymu y bu newid yn y canfyddiadau o Gymru dros y cyfnod hwn ymhlith rhai cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, byddai angen rhagor o ddata i ddeall a oedd y newid hwn mewn canfyddiadau wedi parhau y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

### *Canfyddiadau rhanddeiliaid o'r effaith ar y canfyddiadau o werthoedd a diwylliant Cymru*

4.22 Credai'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd fod Llysgenhadon Lleisiau Cymru wedi gweithio'n dda ac wedi cyfleu gwerthoedd Cymru yn gadarnhaol drwy

weithgareddau a oedd yn eu galluogi i ddangos eu profiadau amrywiol a defnyddio eu setiau sgiliau penodol. Roedd y rhanddeiliaid yn ystyried bod yr unigolion yn llysgenhadon rhagorol, eu bod wedi bod 'ar gael ac yn ddymunol', a dywedwyd eu bod wedi hyrwyddo Cymru mewn ffordd fywiog a gwybodus. Nododd y rhanddeiliaid fod potensial i barhau â'r mathau hyn o weithgareddau ac y dylid cael rhaglen dreigl o lysgenhadon tebyg yn y dyfodol i adeiladu ar waith y Lleisiau. Trafodir hyn ymhellach yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

'Un o'r pethau rwy'n falch iawn yn ei gylch, yn fwy na dim arall, yw ein bod wedi dangos Cymru yn ei holl ogoniant. Roedden ni'n sefyll allan, wnaethon ni ddim ildio i brotestiadau a phobl yn gofyn 'beth ydych chi'n ei wneud?'. Roedden ni'n dda iawn am sefyll allan a rhoi ein hochr onest ni o bethau.'

**Rhanddeiliad**

- 4.23 Cafodd cefnogwyr Cymru eu hunain lawer o glod gan y rhanddeiliaid a gyfeiriodd at eu rôl fel llysgenhadon a'u hagwedd gadarnhaol. Dywedodd y rhanddeiliaid fod nifer sylweddol o gefnogwyr benywaidd a theuluoedd yn Qatar, a gymharwyd gan un rhanddeiliad â'r amrywiaeth a welwyd yn nhorfeydd pêl-droed de America. Teimlai'r rhanddeiliaid fod yr amrywiaeth hwn ymhlith y cefnogwyr yn adlewyrchu'n dda ar Gymru ac yn cyd-fynd â'r gwerthoedd a nodir yn y datganiad gwerthoedd.

'Mae pob cefnogwr yn ddiplomydd ar ran Cymru mewn gwirionedd – beth bynnag fo'r chwaraeon. Maen nhw'n teithio ac yn cymysgu ac yn cofleidio'r achos - nhw yw Lleisiau Cymru hefyd.'

**Rhanddeiliad**

- 4.24 Teimlai'r rhanddeiliaid, gan gynnwys llysgenhadon Lleisiau Cymru a gyfwelwyd, fod y datganiad gwerthoedd yn darparu ffocws clir a phwrpas cyffredin ar gyfer y gweithgareddau.

'Roedd y neges yn glir gan Lywodraeth Cymru - siaradwch am werthoedd Cymru a sicrhewch fod Cymru yn cael cymaint o sylw â phosibl, popeth y mae Cymru yn sefyll drosto oddi ar y cae.'

**Rhanddeiliad**

- 4.25 Roedd y rhanddeiliaid yn ystyried bod y gosodwaith het fwced yn Qatar wedi gweithio'n arbennig o dda fel lleoliad ar gyfer gweithgareddau y cyfryngau, o ran cyfweiliadau a drefnwyd yn ogystal â'r sylw mwy ad hoc yn y cyfryngau. Amlygodd y rhanddeiliaid hefyd fod y gosodwaith wedi bod yn ganolbwynt i gefnogwyr Cymru a rhyngwladol ymgasglu. Defnyddiwyd y gosodwaith fel cefndir i berfformwyr, er enghraifft côr yr Urdd a Dafydd Iwan, a gynyddodd amlygrwydd Cymru a chreu diddordeb mawr ar-lein (gweler astudiaeth achos 1). Dywedodd rhai rhanddeiliaid mai Cymru oedd yr unig wlad â gosodwaith celf ar y Corniche yn Doha (promenâd y

glannau, sef y prif leoliad ar gyfer gweithgareddau'n gysylltiedig â Chwpan y Byd yn Doha). Teimlai'r rhanddeiliaid fod y gosodwaith hwn wedi ennyn llawer o ddiddordeb yn niwylliant Cymru am yr hyn a ystyriwyd yn fuddsoddiad bach.

- 4.26 O ran presenoldeb gwledydd eraill yn Doha, adroddwyd bod gan rai bafiliynau wedi'u lleoli ar y Corniche yn Doha, yn unol â'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU, tra bod gan eraill stondinau â staff. Dywedwyd bod rhai gwledydd wedi canolbwyntio eu gweithgareddau ar fasnach a rhai ar dwristiaeth. Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod dull Cymru o gyfuno diwylliant a chwaraeon wedi gwneud iddi sefyll allan drwy ei phresenoldeb yn Qatar.

### **Deilliannau economaidd**

- 4.27 Fel rhan o weithgareddau Cwpan y Byd cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau yn Qatar ac UDA i gefnogi'r amcanion o hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygu'r economi a chyrchfan i dwristiaid. Roedd llawer o'r gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn ceisio cynyddu ymgysylltiad â phartneriaid mewn marchnadoedd targed fel rhan o broses hirdymor o greu'r amodau cywir ar gyfer gweithgaredd economaidd yn y dyfodol. Teimlai'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd ei bod yn rhy gynnar i allu gweld llawer o effeithiau economaidd pendant neu fesuradwy yn seiliedig ar y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cynigiwyd rhai enghreifftiau o effaith sy'n dod i'r amlwg ac effaith bosibl yn y dyfodol.
- 4.28 Isod, disgrifir effaith economaidd gweithgareddau'r ymgyrch farchnata estynedig, ac yna effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn sgil gweithgareddau yn Qatar ac UDA. Ar ddiwedd yr adran hon, cyflwynir rhywfaint o dystiolaeth bellach o'r effeithiau economaidd a grybwyllwyd gan rhanddeiliaid.

### *Effeithiau economaidd yr ymgyrchoedd marchnata twristiaeth estynedig*

- 4.29 Nod y gweithgareddau marchnata twristiaeth estynedig oedd creu effeithiau economaidd drwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau teithio ar-lein i gynhyrchu archebion ychwanegol gan dwristiaid a chreu ac ysgogi cynnydd mewn ymholiadau masnach a buddsoddi gan fuddsoddwyr. Arweiniodd y bartneriaeth gydag un asiant dwristiaeth ar-lein at gynnydd o 50% yn nifer yr archebion gros o flwyddyn i flwyddyn.

*Effaith economaidd sy'n dod i'r amlwg o weithgareddau yn Qatar*

- 4.30 O ran effaith gweithgareddau Llywodraeth Cymru yn Qatar, nododd ei chynrychiolwyr a rhanddeiliaid ehangach amrywiaeth o ddeilliannau cadarnhaol. Dywedir bod cryfder y rhwydweithio rhwng Cymru a Qatar wedi cynyddu mewn amrywiaeth o feysydd megis busnes, gwyddoniaeth a'r celfyddydau. Disgwyliwyd i gyfleoedd buddsoddi ddeillio o'r rhwydweithiau cryfach hyn, ac ansawdd y cysylltiadau a ddatblygwyd yn sgil hynny ar lefel weinidogol a sefydliadol. Ystyriwyd bod y lefel uchel hon o ymgysylltu yn cysylltu â thrafodaethau yn y dyfodol ynghylch, er enghraifft, potensial buddsoddi Cronfa Cyfoeth Sofran Qatar, cyfleoedd o ran eiddo tiriol a thwristiaeth. Nododd y partneriaid, fodd bynnag, y bydd angen i Gymru arwain y gwaith o sicrhau bod y trafodaethau hyn yn digwydd.
- 4.31 Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys cyfarfod dilynol i ailgyflwyno llwybr hedfan wythnosol rhwng Caerdydd a Doha gyda chyfleoedd i ddatblygu cyfleoedd cludo teithwyr a nwyddau; partneriaethau rhwng prifysgolion mewn meysydd megis archaeoleg a thechnolegau gwyrdd, partneriaethau curadurol rhwng yr Amgueddfa Celf Islamaidd ac Amgueddfa Cymru a marchnadoedd newydd ar gyfer twristiaeth. Mynychodd Gweinidog yr Economi ddigwyddiad i lansio murlun a grëwyd gan artistiaid o Gymru a Qatar fel rhan o'r 7<sup>fed</sup> digwyddiad blynyddol 'UK in Qatar' a gefnogwyd gan y British Council ac arweiniodd at 19 eitem o sylw yn y cyfryngau ar draws Qatar, Emiradau Arabaidd Unedig, y DU a'r Unol Daleithiau gan gynnwys gan sefydliadau fel Al Jazeera, Gulf Times a PA Media.
- 4.32 I gefnogi'r gweithgareddau mewn meysydd ffocws allweddol megis Qatar, bu timau Llywodraeth Cymru ar lawr gwlad yn gweithio gyda phartneriaid lleol. Roedd y rhanddeiliaid yn ystyried bod y dull hwn yn hanfodol am resymau ymarferol a diwylliannol. Roedd rôl Llysgennad y DU yn arbennig o bwysig yn Qatar. Cafodd ei rôl ganmoliaeth uchel gan yr holl bartneriaid ac unigolion a fu'n ymwneud â gweithgareddau Cwpan y Byd, yn enwedig ei ymdrechion i ymgysylltu drwy gyfrwng y Saesneg, y Gymraeg ac Arabeg a chefnogi partneriaethau agos ag arweinwyr busnes a diwylliannol Qatar. Unwaith eto, y farn oedd bod presenoldeb y Gweinidogion wedi darparu'r 'grym' i sicrhau ymgysylltiad â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol.



'Byddai effaith gadarnhaol wedi bod yn fwy heriol heb bresenoldeb Gweinidogion, mae'n dangos Cymru'n gweithio fel democratiaeth. Roedd yn ymdrech dda ar lawr gwlad gan Lywodraeth Cymru.' **Rhanddeiliad**

- 4.33 Roedd y cysylltiadau agos a ddatblygwyd gyda Llysgennad y DU a'i staff yn Qatar yn adlewyrchu partneriaethau llwyddiannus rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU. Cafodd digwyddiad VIP agoriadol Llywodraeth Cymru ym Mhreswylfa'r Llysgennad yn Doha, a lansiodd weithgareddau'r rhaglen yn Qatar, ei ariannu ar y cyd â llywodraeth y DU. Gweithiodd swyddogion Llywodraeth Cymru yn agos gydag Adran Busnes y DU i ymgysylltu â chynrychiolwyr Qatar ynghyd â gwledydd eraill o'r dwyrain canol e.e. Emiradau Arabaidd Unedig, Dubai. Mae'r gweithgareddau hyn yn enghreifftiau o'r gwerth a rennir mewn perthynas â chreu partneriaethau ledled y DU gyfan ac roedd y rhanddeiliaid yn ystyried eu bod yn darparu model ar gyfer cydweithio ar y cais i gynnal gemau Euro 2028.

*Effaith economaidd sy'n dod i'r amlwg o weithgareddau yn UDA*

- 4.34 Dywedodd y rhanddeiliaid mai deilliannau allweddol y gweithgareddau a gynhaliwyd yn UDA oedd cynnydd yn yr ymgysylltiad â busnesau, y Cymry alltud ac aelodau etholedig allweddol a swyddogion y llywodraeth, er enghraifft, sawl unigolyn yng nghyngres yr Unol Daleithiau a meiri dinasoedd. Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod gweithgareddau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi darparu 'sylfaen i adeiladu arni' ac wedi rhoi mwy o 'hygrededd a phroffil' i Gymru o ran ymgysylltu â 'gwneuthurwyr penderfyniadau' allweddol, gan ddatblygu cysylltiadau â chlymblaid Cyfeillion Cymru yng Nghyngres UDA ac ehangu a chysylltu'r Cymry alltud.

'Roedd cael sawl digwyddiad mawr ar yr un pryd yn golygu ein bod ni wedi ailgysylltu â rhai pobl bwysig nad oeddem wedi bod mewn cysylltiad â nhw ers tro. Fyddai'r bobl a ddaeth i'r ystafelloedd a oedd gennym ddim wedi dod oni bai am y 'bachau' oedd gennym. Mae wedi arwain at berthnasoedd gyda darpar fuddsoddwyr a fydd yn ddefnyddiol yn y dyfodol.' **Rhanddeiliad [mewn perthynas â digwyddiadau UDA]**

- 4.35 Pwysleisiodd y rhanddeiliaid bwysigrwydd presenoldeb Gweinidogion mewn digwyddiadau er mwyn sicrhau bod gweithgareddau Cymru'n ymwneud â Chwpan y Byd yn cael yr effaith wleidyddol ac economaidd fwyaf. Amlygwyd hyn drwy'r

cyfleoedd i ymgysylltu â buddsoddwyr o'r Unol Daleithiau a swyddfa'r maer yn Washington DC ac i greu cyfleoedd i drafod buddsoddiad posibl gan gwmnïau tramor yng Nghymru yn deillio o'r daith fasnach i daleithiau Carolina. Dywedodd y rhanddeiliaid fod gweithgareddau Cwpan y Byd wedi creu ac atgyfnerthu perthnasoedd diplomyddol â llysgenadaethau yn Washington DC. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi arwain at drafodaethau am weithgaredd ar y cyd gyda llysgenadaethau tramor yn UDA yn y dyfodol, er enghraifft digwyddiad seiberddiogelwch ar y cyd â llysgenhadaeth arall.

'Yn y digwyddiad 'Soccer in the Circle', cyfarfu'r Gweinidog â darpar fuddsoddwr newydd i Gymru. Siaradodd [y Gweinidog] am y cynlluniau a pha gymorth a allai fod ar gael gan Lywodraeth Cymru. Siaradodd y Gweinidog hefyd â buddsoddwr seiber presennol yng Nghymru ac yn ystod y trafodaethau, nodwyd ei fod yn ystyried cynlluniau i ehangu yn Ewrop ac y gallai Cymru chwarae rhan yn hynny.'

### **Rhanddeiliad**

#### *Effeithiau economaidd eraill sy'n dod i'r amlwg*

4.36 Crybwyllwyd rhai enghreifftiau pellach o effeithiau economaidd gan rhanddeiliaid yn ystod y cyfweiliadau ac yn nata monitro'r Gronfa Cefnogi Partneriaid:

- Adroddodd un darlledwr fod y gweithgareddau wedi arwain at drafodaethau parhaus gyda sefydliadau rhyngwladol yn y diwydiannau creadigol yn UDA gan gynnwys darlledwyr, dosbarthwyr, cynhyrchwyr a phlatformau ffrydio.
  - Amcangyfrifodd y darlledwr hwn fod gwerth y sylw ar gyfer y cyfnod 10 diwrnod o'r digwyddiad *Cymru i'r Byd* ei hun yn £380,000
- Enghreifftiau o gerddorion ac artistiaid unigol yn cael eu comisiynu i wneud gwaith pellach (e.e. perfformio yn nigwyddiadau rhyngwladol UNESCO) o ganlyniad uniongyrchol i berfformiadau a / neu arddangosfeydd a ariannwyd gan weithgareddau Cwpan y Byd Llywodraeth Cymru
- Gwelwyd cynnydd o 80 yn yr aelodaeth o [GlobalWelsh](#) yn ystod cyfnod yr ymgyrch
- Enghreifftiau o weithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu fel catalydd i sefydliadau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid fuddsoddi mewn gweithgareddau marchnata pellach a oedd wedi arwain at gynnydd yn yr ymweliadau â'u gwefannau.
  - Er enghraifft ariannodd Cymru Fyd-eang ei hun waith hyrwyddo pellach mewn perthynas â rhai o'r fideos byr a gynhyrchwyd gyda chyllid y Gronfa Cefnogi Partneriaid, gan dargedu cynulleidfaoedd yn Ffrainc, yr

Almaen ac UDA. Cynhyrchodd y gweithgaredd hwn 1.2 miliwn o argraffiadau, dros 5,000 o gliciau, 10,500 o ymweliadau â'r wefan a fideos yn cael eu gweld 1.1 miliwn o weithiau, gan gynhyrchu 245 o ddilynwyr newydd a 300 o ymweliadau organig ychwanegol i sianeli cyfryngau cymdeithasol Astudio yng Nghymru.

## **5. Heriau a gwersi a ddysgwyd**

- 5.1 Amlinellodd y rhanddeiliaid amrywiaeth o heriau a gwersi a ddysgwyd yn sgil cynllunio a chynnal gweithgareddau Cwpan y Byd. Roedd y rhain yn amrywio o'r ymarferol i'r ariannol a'r strategol yn ogystal â sylwadau ar rai elfennau o'r gweithgareddau, y gellid eu hystyried ar gyfer y dyfodol.

### **Cyllid**

- 5.2 O safbwynt ariannol, nododd y rhanddeiliaid rai heriau o ran cyllido. Fel y trafodwyd yn Adrannau 3.24-25, roedd cydnabyddiaeth bod cyllidebau'n ddigonol i gyflawni'r gweithgareddau a gynlluniwyd ond y gellid bod wedi cyflawni mwy yn enwedig o ran marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, gan ddangos Cymru mewn ffordd ehangach ar lefel ryngwladol. Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer brandio cenedlaethol yn parhau i fod yn rhan fach o gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer marchnata a digwyddiadau. Teimlai rhai rhanddeiliaid y gellid cynyddu hyn er mwyn rhoi ffocws parhaus ar ddiplomyddiaeth chwaraeon (gweler yr adran ar waddol am ragor o fanylion).

### **Amserlenni**

- 5.3 Roedd y cyfnod byr rhwng i Gymru fynd drwodd i Gwpan y Byd ym mis Mehefin a dechrau'r bencampwriaeth ym mis Hydref yn her sylweddol i Lywodraeth Cymru a phartneriaid Tîm Cymru. Roedd y ffaith i Gymru fynd drwodd yn hwyrach na'r disgwyl (cynhaliwyd y gemau ail gyfle yn erbyn Wcráin ym mis Mehefin yn hytrach na mis Mawrth fel y trefnwyd yn wreiddiol) a'r angen i gynnwys partneriaid mewn trafodaethau'n ymwneud â'r sensitifrwydd ynghylch y ffaith bod Cymru'n cael ei chynrychioli yn Qatar yn gofyn am weithredu'n ofalus.
- 5.4 Fodd bynnag, teimlai rhai rhanddeiliaid y gallai'r sylfeini ar gyfer Tîm Cymru fod wedi'u gosod cyn i'r tîm fynd drwodd er mwyn sicrhau cydweithredu a phroses gyflawni effeithiol o'r cychwyn cyntaf. Dywedodd un rhanddeiliad, 'roedd y logisteg felly'n heriol o ran sicrhau bod pethau'n cael eu cyflawni' a thynnodd sawl un arall sylw at y ffaith bod ymgysylltu â phartneriaid wedi dibynnu ar ymrwymiad partneriaid i fynd 'y tu hwnt i'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig' o ganlyniad.

## **Cynaliadwyedd dull Tîm Cymru**

- 5.5 O ran cynnal gwaddol Tîm Cymru, tynnodd y rhanddeiliaid sylw at rai heriau. Ers hynny mae tîm Llywodraeth Cymru a gydlynodd y gwaith o gyflawni gweithgareddau a ariannwyd gan Gwpan y Byd wedi'i ddiddymu, gydag unigolion yn dychwelyd i'w rolau o ddydd i ddydd. Teimlai rhai rhanddeiliaid y gallai hyn leihau'r gallu i fanteisio'n llawn ac adeiladu ar waddol y gweithgareddau a ariannwyd ac y dylid adolygu hyn fel rhan o ddatblygu strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon newydd i Gymru.
- 5.6 Teimlai ambell rhanddeiliad fod cael nifer cyfyngedig o fusnesau mawr yng Nghymru i gefnogi a noddi gweithgareddau yng Nghymru yn her i gynnal dull diplomyddiaeth chwaraeon yn y dyfodol. Dywedodd y rhanddeiliaid fod tuedd i orddibynnu ar nifer bach o noddwyr yng Nghymru, yr oedd nifer o chwaraeon a thimau yn mynd ar eu holau. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod angen dull mwy deinamig ac eang yn y maes busnes i fynd i'r afael â hyn ar gyfer gweithgareddau a fyddai'n canolbwyntio ar Euro 2028.

## **Heriau eraill**

- 5.7 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y gellid bod wedi rhoi mwy o sylw i fwyd a diod o Gymru. Dywedodd un rhanddeiliad, *'nid oedd cymaint o fwyd a chynhwysion Cymreig i'w gweld ag y gallasai fod.'*
- 5.8 Teimlai rhai rhanddeiliaid y bu diffyg capasiti ar lawr gwlad yn Qatar yn ystod y cyfnod cyn y bencampwriaeth i sicrhau bod artistiaid a pherfformwyr yn cael eu dewis, eu briffio a'u rheoli yn y ffordd a oedd yn cyd-fynd orau â chynulleidfaoedd yn y marchnadoedd targed. I'r rhanddeiliaid hyn, roedd y gwersi a ddysgwyd o'r ymgysylltu hwn yn cynnwys cyfathrebu yn iaith y gwledydd lle y cynhelir y cystadlaethau ac ymgysylltu'n gynnar â phenaethiaid cenhadaeth a chynrychiolwyr ar lawr gwlad sy'n ymwneud â phenderfyniadau am yr hyn a fydd yn gweithio'n dda gyda chynulleidfaoedd yn y gwledydd lle y cynhelir y cystadlaethau.
- 5.9 Nid ystyriwyd bod pecynnau Cwpan y Byd a bostiwyd at unigolion ymysg y Cymry alltud wedi cael llawer o effaith â phrin oedd y fantais o ran cynyddu proffil Cymru neu gynhyrchu mwy o gynnwys a sylw ar y cyfryngau cymdeithasol a galwodd

arbenigwyr cysylltiadau cyhoeddus am ddadansoddiad pellach o sut y gellid bod wedi addasu'r elfen hon i gael mwy o effaith.

## **6. Gwaddol**

6.1 Mae'r adran hon yn nodi canfyddiadau'r gwerthusiad o ran cynnal gwaddol gweithgareddau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, meithrin partneriaethau ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol a denu buddsoddiad yn y dyfodol. Mae'r adran yn cloi gydag ystyriaeth o sut y gellid sicrhau cyfatebiaeth rhwng gweithgareddau yn y dyfodol a nodau polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

### **Cynnal y gwaddol**

6.2 Credai'r rhanddeiliaid fod yr ystod eang o effeithiau cadarnhaol a nodwyd mewn adrannau blaenorol wedi cyfrannu at waddol o ddelwedd newydd, fodern ac amrywiol ar gyfer Cymru. Ystyriwyd bod dull Tîm Cymru wedi galluogi amrywiaeth o weithgareddau i gael eu cynnal, a oedd, ym marn y rhanddeiliaid, wedi sicrhau hygyrdd, hyder a hynodrwydd fel cenedl, yn unol â'r nodau i hyrwyddo Cymru a'i gwerthoedd. Galwodd y rhanddeiliaid am ystod o fesurau i gynnal y gwaddol hwn gan gynnwys datblygu strategaeth chwaraeon wedi'i diweddarau, a fyddai'n cynnwys elfen o ddiplomyyddiaeth chwaraeon, a allai ddarparu 'sylfaen o ymreolaeth i Gymru' i wella ei sofraniaeth chwaraeon.

6.3 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn y byddai'r strategaeth newydd arfaethedig hon yn fuddiol mewn sawl ffordd:

- Teimlai rhai y byddai'n galluogi Cymru i fod yn fwy parod am gyfleoedd yn y dyfodol i hyrwyddo Cymru a'i gwerthoedd ar y llwyfan rhyngwladol, drwy ddigwyddiadau chwaraeon, diwylliannol a rhyngwladol eraill.
- Tynnodd rhai sylw at y cyfleoedd gwleidyddol a diplomyddol i adeiladu ar waddol y gweithgareddau, gan anelu at adeiladu ar benodiad yr Athro Laura McAllister i bwyllgor gwaith UEFA a'r ffaith bod Llywydd CBDC yn aelod o fwrdd masnachol UEFA drwy gynyddu cynrychiolaeth Cymru mewn sefydliadau chwaraeon rhyngwladol.
- Tynnodd rhai sylw at gyfraniad cryf diwylliant at effaith ac amlygrwydd y gweithgareddau, at sefydlu partneriaethau ac at annog mwy o bobl i ymgysylltu â chwaraeon a diwylliant, gan ddarparu cyfle cyfartal a chymorth ar gyfer llesiant meddyliol a chorfforol.

### **Partneriaethau yn y dyfodol**

6.4 Mae'r partneriaethau a ddatblygwyd wedi sicrhau ystod o effeithiau cadarnhaol yng Nghymru, ac yn rhyngwladol.

- Dywedodd rhai sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y Gronfa Cefnogi Partneriaid eu bod yn adeiladu ar bartneriaethau presennol a bod y cyllid wedi darparu cyfleoedd i ymgorffori'r perthnasoedd hyn
- I eraill, mae partneriaethau newydd wedi cael eu creu a fydd, yn eu barn nhw, yn fuddiol yn y dyfodol, er enghraifft o ran cefnogi cyd-geisiadau am gyllid, rhannu arbenigedd ac arfer da, a rhwydweithio ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

6.5 Enghraifft benodol o gydweithredu drwy bartneriaethau Cwpan y Byd yw gyda darlledwyr yng Nghymru. Yn y lle cyntaf gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r BBC, ITV ac S4C i fod yn aelodau o'r grŵp llywio, ac yn dilyn hynny sefydlwyd is-grŵp i weithio'n agos gyda CBDC. Fel y dywedodd cynrychiolydd un darlledwr, *'roedd cydweithio rhwng darlledwyr fel hyn yn rhywbeth nad oedd erioed wedi digwydd o'r blaen – buom yn rhannu gwybodaeth, syniadau, amserlenni darlledu, sylwebyddion, ac ati. Roedd llawer o frwdfrydedd i gydweithio ar hyn er budd y genedl.'* Ychwanegodd y darlledwr y bydd rhai o'r partneriaethau hyn yn parhau ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc yn ystod hydref 2023.

'Mae'r rhwydweithio wedi bod yn wych, a gwerau allweddol yw y gall pobl sy'n gweithio mewn chwaraeon feddwl am syniadau da yn ymwneud â diwylliant ac i'r gwrthwyneb. Mae angen i ni gydnabod bod gan bobl sy'n gweithio ym mhob sector ddiddordebau a safbwyntiau amrywiol a bod pob sefydliad yn dod â chynulleidfa wahanol.' **Rhanddeiliad**

6.6 Ystyriwyd dull Tîm Cymru o ddod ag ystod eang o bartneriaid ynghyd fel model y gellir ei ailadrodd i gefnogi unrhyw strategaeth yn y dyfodol a chreu gwaddol. Nododd sawl rhanddeiliad, pan fydd Cymru'n llwyddo'n rhyngwladol mewn chwaraeon, ei fod yn gyfle i gynyddu i'r eithaf yr ymgysylltiad â chwaraeon ymhlith pobl ifanc, cymunedau a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod hyn yn gofyn am gynllunio ac adnoddau effeithiol, i ganiatáu ar gyfer hyfforddi hyfforddwyr, datblygu seilwaith a phrynu cyfarpar i gefnogi'r ymgysylltu hwn.

### **Buddsoddiad yn y dyfodol**

6.7 Cydnabu'r holl rhanddeiliaid fod gan Gymru enw da sy'n prysur dyfu ond bod angen buddsoddiad pellach ac arloesedd mewn adeiladu cenedl yng Nghymru er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf a sicrhau bod pobl yn gweld Cymru fel brand yn



amlach, nid dim ond mewn digwyddiadau mawr. Ystyriwyd bod dull rhagweithiol o ddatblygu'r brand hwn drwy strategaeth chwaraeon wedi'i diweddarau yn rhoi proffil ac ymreolaeth bellach i Gymru. Cyfeiriwyd at Awstralia, Seland Newydd a Croatia fel enghreifftiau cryf o wledydd â hunaniaeth chwaraeon y gallai Cymru ei hefelychu, gan gysylltu chwaraeon, diwylliant, hanes ac iaith i hyrwyddo ei hun yn y dyfodol.

'Mae gan chwaraeon gyrhaeddiad enfawr. Rhaid i ni gadw ein pennau ac adeiladu ar y rhwydweithiau rydym wedi'u creu a mapio strategaeth ar gyfer y dyfodol sy'n cynnwys chwaraeon menywod. Bydd y cyfathrebu beiddgar yn dychwelyd.' **Rhanddeiliad**

- 6.8 Er mwyn cyflawni'r dull mwy rhagweithiol hwn, cynigodd nifer o rhanddeiliaid y dylid cael cyllideb graidd a staff parhaus (h.y. nid dull adweithiol yn seiliedig ar ddiwyddiadau allweddol). Teimlai'r rhanddeiliaid y byddai hyn yn galluogi gwell cynllunio ac yn arwain at nodi cyfleoedd i ddenu ffynonellau eraill o gyllid a nawdd.

### **Cyfatebiaeth a ffocws ehangach**

- 6.9 Awgrymodd y rhanddeiliaid y dylid parhau i sicrhau fod gweithgareddau diplomyddiaeth chwaraeon yn y dyfodol yn cyd-fynd â strategaethau Llywodraeth Cymru, megis y Strategaeth Ryngwladol gyfredol a'r Strategaeth Ddiwylliant arfaethedig yn ogystal â'r rhai sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, masnach, busnes a llesiant. Teimlai'r rhanddeiliaid y gallai'r dull cydgysylltiedig hwn gyfrannu at gefnogi a datblygu hunaniaeth a chenedligrwydd Cymreig, yn seiliedig ar egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan adlewyrchu'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol ar y datganiad gwerthoedd.
- 6.10 Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw hefyd at y potensial ar gyfer ffocws ehangach ar chwaraeon eraill, gan ddefnyddio dull tebyg i ddull Tîm Cymru, gan nodi bod cyfleoedd i'w cael mewn chwaraeon sydd ar gynnydd fel badminton, pêl-rwyd a sboncen, a chyfeirio at lwyddiant tîm hoci dynion Cymru o ran mynd drwodd i Gwpan Hoci'r Byd yn India. Ystyriwyd bod rôl Cymru Fyd-eang o ran noddî'r tîm, a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan astudio, yn enghraifft gadarnhaol bellach o gynnal brand Cymru ar lefel ryngwladol. Galwodd y rhanddeiliaid am fwy o ffocws ar ddatblygu cysylltiadau agosach â noddwyr, yn enwedig gyda brandiau a chwmnïau Cymreig.

6.11 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn ei bod yn bwysig bod athletwyr ac artistiaid yn rhan annatod o'r broses o gynnal gwaddol y gweithgareddau. Awgrymodd y rhanddeiliaid y gellid canolbwyntio ar gynnal ac ehangu llysgenhadon Lleisiau Cymru yn y dyfodol, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu i athletwyr ac artistiaid i gynrychioli Cymru yn rhyngwladol. Galwodd un rhanddeiliad am greu 'diplomaciaid mewn tracwisgoedd ac athletwyr-ymgyrchwyr' i hybu cyfranogiad mewn chwaraeon a chefnogi'r gwaith o hyrwyddo Cymru a'i gwerthoedd yn rhyngwladol. Teimlai'r rhanddeiliaid y gallai Cymru adeiladu ar ei henw da rhyngwladol mewn rhai meysydd megis cyrsiau hyfforddi pêl-droed CBDC i ddarparu cyfleoedd i gysylltu â rhwydweithiau llysgenhadol rhyngwladol ehangach yn y byd chwaraeon.

## 7. Casgliadau ac argymhellion

### Dyluniad y gweithgareddau a sut y cawsant eu cyflawni

- 7.1 Roedd pennu **nodau a gwerthoedd clir a rennir** o'r cychwyn cyntaf wedi cefnogi dull Tîm Cymru, ac mae hyn wedi bod yn un o lwyddiannau allweddol y broses o ddylunio a chynnal gweithgareddau. Mae hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol fel gwlad fodern, amrywiol sy'n uniaethu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau cenedlaethol eraill megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Cymraeg 2050 yn cynnig gwaddol i adeiladu arno yn y dyfodol.
- 7.2 Roedd gan randdeiliaid **farn gadarnhaol ynghylch maint, ansawdd a chyrhaeddiad y gweithgareddau a gomisiynwyd ac a gyflawnwyd** drwy 19 o brosiectau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid, yr ymgyrch farchnata estynedig, gweithgareddau Lleisiau Cymru a digwyddiadau rhyngwladol, yn enwedig o ystyried y cyfnod byr rhwng yr adeg yr aeth Cymru drwodd i Gwpan y Byd ym mis Mehefin 2022 a dechrau'r bencampwriaeth ym mis Hydref. Ystyriwyd yn gyffredinol bod dull Llywodraeth Cymru o **gyfuno diwylliant a chwaraeon** wedi gwneud i'r wlad sefyll allan yn ystod Cwpan y Byd yn Qatar yn ogystal ag ym marchnad allweddol UDA.
- 7.3 Dengys y canfyddiadau fod dull Tîm Cymru wedi cefnogi amrywiaeth o gyfleoedd partneriaeth yng Nghymru a'r DU. **Cafodd amrywiaeth, cynwysoldeb a chyrhaeddiad y gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon a ariannwyd drwy'r Gronfa Cefnogi Partneriaid** ei ganmol gan randdeiliaid ac mae wedi cyfrannu at annog ymgysylltiad, yn enwedig o ran pobl ifanc. Dengys y canfyddiadau fod dros 2,200 o ddigwyddiadau wedi'u cynnal, gyda mwy na 320,000 o bobl yn cymryd rhan, gan gynnwys bron i 250,000 o bobl ifanc.<sup>11</sup> Ymhellach, mynychodd 91,403 o ymwelwyr ddwy arddangosfa a ariannwyd drwy'r Gronfa Cefnogi Partneriaid.
- 7.4 Roedd gan randdeiliaid **farn gadarnhaol ynghylch rôl Llywodraeth Cymru o ran cydlynu'r gweithgareddau hyn**. Amlygwyd hefyd ei rôl ganolog o ran defnyddio ei strategaethau marchnata a digidol i gefnogi cyrhaeddiad ac ymgysylltiad pellach a chodi ymwybyddiaeth mewn marchnadoedd allweddol.
- 7.5 Dengys y canfyddiadau fod natur a maint unigryw'r cyfle a gyflwynwyd gan Gwpan y Byd 2022 yn ffactor clir a ysgogodd bartneriaid i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid a

---

<sup>11</sup> Roedd cyfran sylweddol o'r rhain yn cynnwys y 238,000 o blant o 1,200 o ysgolion a ymunodd â Jamborî Urdd Gobaith Cymru.

gyfwelwyd yn damcaniaethu efallai na fyddai sefydliadau diwylliannol a chwaraeon o bosibl mor barod i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn y dyfodol sydd â chyrhaeddiad a chynulleidfa lai. Awgryma hyn fod angen ystyried a yw lefel y gweithgareddau gan bartneriaid a welwyd mewn perthynas â Chwpan y Byd 2022 yn gynaliadwy, wrth gynllunio gweithgareddau sy'n ymwneud â digwyddiadau chwaraeon neu ddiwylliannol ar raddfa lai.

### **Deilliannau'n ymwneud ag amlygrwydd a phroffil Cymru**

- 7.6 Dengys y dystiolaeth fod gweithgareddau Cwpan y Byd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi llwyddo o ran yr amcanion craidd o **hyrwyddo Cymru a rhannu ei gwerthoedd** drwy gyfuniad o weithgareddau marchnata a gweithgareddau partner. Mae tystiolaeth gref bod y gweithgareddau hyn wedi cynyddu cyfleoedd i weld cynnwys â'r brand Cymru Wales yn ogystal ag ehangu cyrhaeddiad gweithgareddau llawer o sefydliadau diwylliannol a chwaraeon Cymreig, gartref ac yn rhyngwladol. Amlygir hyn gan y data monitro sy'n dangos bod yr **ymgyrch farchnata estynedig** wedi cynhyrchu dros **150 miliwn o gyfleoedd i weld** cynnwys yn ymwneud â brand Cymru Wales tra bod **Gweithgareddau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid** hefyd wedi cyrraedd cynulleidfa o dros **5 miliwn**. Amcangyfrifwyd bod gwerth **8 biliwn yn ychwanegol o 'gyfleoedd i weld'** yn ymwneud â Chymru wedi'u cynhyrchu drwy weithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 7.7 Mae tystiolaeth gref bod y gweithgareddau hyn wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol o ran **gwella proffil Cymru**, yn unol ag amcanion allweddol y gweithgareddau. Dangosir hyn drwy'r cynnydd sylweddol yn y traffig i'r wefan [wales.com](http://wales.com) (gweler Adran 4.7), a 23 y cant o ymatebwyr tramor i'r arolwg yn nodi eu bod wedi ymweld â'r wefan oherwydd iddynt weld rhywbeth am Gymru yng Nghwpan y Byd. Dengys y cynnydd mewn traffig i wefan [Masnach a Buddsoddi Cymru](#) yn ystod Cwpan y Byd hefyd broffil uwch Cymru yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2022.
- 7.8 Mae'r canfyddiadau a nodir yn Adran 4.9 yn dangos cynnydd yn y **cyfeiriadau at Gymru ar-lein** yn ystod Cwpan y Byd, gan ddangos bod cyfranogiad Cymru yn y bencampwriaeth wedi rhoi llwyfan i Gymru gan gynyddu ei chyfran o gyfeiriadau byd-eang at wledydd y DU. Mae hyn hefyd i'w weld yng nghanfyddiadau arolwg *Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth Croeso Cymru - y DU* (Croeso

Cymru, 2023) sy'n dangos bod dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r arolwg o rannau eraill o'r DU **wedi gweld rhyw fath o sylw yn y cyfryngau'n ymwneud â Chymru** yn ystod Cwpan y Byd.

- 7.9 Er ei bod yn rhy gynnar i weld newidiadau sylweddol yn y canfyddiadau o Gymru yn rhyngwladol, mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod **gwell canfyddiadau o Gymru** ymhlith rhai cynulleidfaoedd yn ystod y bencampwriaeth ac ar ei ôl yn y tymor byr. Canfu arolwg Croeso Cymru fod ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (46 y cant) a welodd ryw fath o sylw yn y cyfryngau i Gymru yn ystod Cwpan y Byd yn dweud bod eu hagwedd yn fwy cadarnhaol tuag at Gymru.<sup>12</sup>
- 7.10 Yn gysylltiedig â hyn, bu cynnydd o 18 y cant yn y **teimladau cadarnhaol a fynegwyd yn y cyfeiriadau at Gymru ar-lein** a gostyngiad o 10 y cant yn y cyfeiriadau negyddol at Gymru yn ail hanner 2022 o gymharu â hanner cyntaf y flwyddyn<sup>13</sup>. Ymhellach, dengys y canfyddiadau fod cynnydd yn y cyfeiriadau at Gymru yng nghyd-destun chwech o'r saith nod llesiant cenedlaethol yn ystod cyfnod Cwpan y Byd.
- 7.11 Amser a ddengys p'un a fydd y newidiadau hyn yn cael eu cynnal dros y tymor canolig a'r tymor hwy. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid yr angen am weithgareddau parhaus i atgyfnerthu'r canfyddiadau cadarnhaol o Gymru yn unol â'r datganiad gwerthoedd ac amcanion polisi ehangach.

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro amlygrwydd a phroffil Cymru ar-lein drwy olrhain cyfeiriadau at Gymru a chanfyddiadau o Gymru yn ogystal â thraffig i'w gwefannau a'i sianeli cyfryngau cymdeithasol. Lle bo modd, dylid ceisio olrhain newidiadau dros amser er mwyn meincodi effaith gwahanol fathau o weithgareddau hyrwyddo.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal gweithgareddau marchnata estynedig yn seiliedig ar ddigwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol yn y dyfodol, gan weithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd cenedlaethol a rhyngwladol.

## **Deilliannau economaidd**

- 7.12 Roedd llawer o'r gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn anelu at gynyddu ymgysylltiad â phartneriaid mewn marchnadoedd targed fel rhan o broses hirdymor o greu'r amodau cywir ar gyfer gweithgaredd economaidd yn y dyfodol.

---

<sup>12</sup> Cwestiwn: Sut, os o gwbl, y mae hyrwyddiad a sylw am Gymru yng Nghwpan y Byd wedi effeithio ar eich canfyddiadau o Gymru? N=707

<sup>13</sup> *Wales Nation Brand FIFA World Cup Halo Impact Report* (iCrossing, 2023)

Dengys y canfyddiadau rai deilliannau economaidd mesuradwy cynnar yn seiliedig ar y gweithgareddau marchnata twristiaeth estynedig.

- 7.13 Disgrifiwyd deilliannau economaidd eraill sy'n dod i'r amlwg gan randdeiliaid, megis **trafodaethau parhaus gyda darpar fuddsoddwyr tramor** a gymerodd ran yn nigwyddiadau Cwpan y Byd UDA ynghylch creu swyddi newydd yng Nghymru, a rhai artistiaid a cherddorion yn cael gwaith ychwanegol yn seiliedig ar berfformiadau'n ymwneud â gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. At hynny, amcangyfrifwyd gan ddarlledwyr bod gwerth economaidd y sylw yn ystod Cwpan y Byd yn £380,000.

### **Gwaddol**

- 7.14 Mae'r partneriaethau a ddatblygwyd drwy ddull Tîm Cymru wedi sicrhau ystod o effeithiau cadarnhaol, yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae'r effeithiau hyn wedi cynnwys cefnogi creu adnoddau newydd, rhannu arbenigedd ac arfer da, a rhwydweithio. **Dengys y canfyddiadau fod rhai o'r partneriaethau a ffurfiwyd rhwng sefydliadau diwylliant a chwaraeon, cyrff llywodraethu a darlledwyr yn cael eu cynnal.** Cyfrannodd cydweithio llwyddiannus rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU at gyflawni nod allweddol arall, sef sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru yn Qatar yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd busnes, y gellir adeiladu arnynt ar gyfer y posibilrwydd o gynnal Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop ar y cyd yn 2028.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi dull Tîm Cymru ac ystyried ffurfioli'r trefniadau partneriaeth.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod partneriaethau ar lefel strategol gyda Llywodraeth y DU yn cael eu cynnal i gefnogi a manteisio ar botensial y cais i gynnal Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop 2028.

- 7.15 Ar lefel strategol, mae gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn Qatar ac UDA wedi cefnogi'r nodau ehangach yn ymwneud â diplomyddiaeth ac wedi codi proffil Cymru, gan gyflawni ystod o ddeilliannau cadarnhaol a **gwella ansawdd y cysylltiadau a ddatblygwyd ar lefel weinidogol a sefydliadol.** Mae cryfder y rhwydweithiau wedi cynyddu mewn ystod o feysydd megis busnes, gwyddoniaeth a'r celfyddydau a rhagwelir y bydd cyfleoedd buddsoddi newydd yn deillio o hyn. Roedd y gwersi a ddysgwyd o'r ymgysylltu hwn yn cynnwys cyfathrebu yn iaith y gwledydd lle y cynhelir y digwyddiadau, ymgysylltu'n gynnar â chynrychiolwyr llywodraethau Cymru a'r DU ar lawr gwlad a bod **presenoldeb**

## **Gweinidogion yn hanfodol i ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol.**

**Argymhelliad 5:** Dylai gweithgareddau yn y dyfodol i godi proffil Cymru a gaiff eu harwain gan Lywodraeth Cymru gyd-fynd ag ymweliadau gweinidogol, mewn partneriaeth â thimau tramor Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

7.16 Ystyriwyd bod yr adnoddau ariannol a ddyrannwyd i weithgareddau Cwpan y Byd yn ddigonol i gyflawni'r gweithgareddau a gynlluniwyd, ond roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y gellid bod wedi gwneud mwy, yn enwedig o ran marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, i hyrwyddo Cymru ymhellach. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod cyllidebau marchnata a digwyddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru yn is na'r hyn sy'n ofynnol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r brand Cymru Wales. Roedd yna alwadau felly am gynyddu'r cyllidebau hyn yn unol ag **awgrymiadau ar gyfer tîm diplomyddiaeth chwaraeon a diwylliannol pwrpasol ar gyfer Llywodraeth Cymru.**

7.17 Mae gan y dull hwn y potensial i fynd i'r afael â phryderon rhai rhanddeiliaid y byddai dull mwy rhagweithiol a chynnar o gynllunio gweithgareddau Cwpan y Byd wedi cael mwy o effaith fyth. Gellid ei ddefnyddio hefyd i adeiladu ar yr effaith a pharatoi ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol megis Cwpan Rygbi'r Byd 2023, Gemau'r Gymanwlad 2026 a Phencampwriaethau Pêl-droed Ewrop yn 2028.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei hadnoddau presennol i sicrhau bod tîm hyblyg yn gallu ymateb i ddigwyddiadau yn y dyfodol er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer diplomyddiaeth chwaraeon a diplomyddiaeth ddiwylliannol a marchnata 'brand Cymru' yn rhyngwladol.

7.18 Un o amcanion eraill Llywodraeth Cymru oedd sicrhau etifeddiaeth gadarnhaol o weithgareddau Cwpan y Byd. Ar lefel ddomestig mae'r gweithgareddau wedi cefnogi ystod o gyfleoedd i ymgysylltu â chwaraeon a diwylliant **y gellir eu cynnal drwy'r adnoddau a'r partneriaethau a ddatblygwyd.** Nododd rhanddeiliaid fod Gŵyl Cymru yn enghraifft o'r dull hwn a gellir ei gysylltu â mentrau Dydd Gŵyl Dewi yn y dyfodol. Ar lefel ryngwladol, teimlai'r rhanddeiliaid fod y gweithgareddau wedi sicrhau bod gan Gymru enw da sy'n prysur ehangu fel gwlad fodern ac amrywiol, gan ddangos hygrededd, hyder a hynodrwydd fel cenedl.

7.19 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn mai **ffordd effeithiol o gynnal y gwaddol hwn fydd datblygu strategaeth chwaraeon wedi'i diweddarau,** i gynnwys ffocws ar

ddiplomyddiaeth chwaraeon a chyllid er mwyn parhau â'r dull Tîm Cymru. Mae potensial i hyn gefnogi ymhellach ymgysylltiad â chwaraeon a diwylliant a chodi proffil Cymru drwy sicrhau bod pobl yn gweld brand y genedl yn amlach. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod **cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i gymryd yr awenau a manteisio ar y cyfleoedd hyn** a sicrhau bod unrhyw strategaeth yn cyd-fynd â pholisiau a strategaethau eraill (fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Strategaeth Ryngwladol gyfredol, Cymraeg 2050 a'r Strategaeth Ddiwylliant arfaethedig).

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu strategaeth diplomyddiaeth chwaraeon sy'n cyd-fynd ag amcanion polisi allweddol eraill gan gynnwys y Strategaeth Ryngwladol gyfredol, y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a'r Strategaeth Ddiwylliant arfaethedig i Gymru.

- 7.20 Ystyriwyd dull Tîm Cymru o ddod ag ystod eang o bartneriaid ynghyd fel model y gellir ei ailadrodd i gefnogi unrhyw strategaeth yn y dyfodol a chreu gwaddol. Awgrymwyd hefyd y dylai nodi cyfleoedd **i ddenu cyllid a nawdd** drwy ddatblygu cysylltiadau agosach â brandiau a chwmnïau Cymreig fod yn rhan annatod o'r dull hwn.
- 7.21 Roedd y rhanddeiliaid yn ystyried ei bod yn **hanfodol bod athletwyr ac artistiaid yn rhan annatod o'r broses o gynnal gwaddol** gweithgareddau Cwpan y Byd. Gallai hyfforddiant ar gyfer athletwyr ac artistiaid y dyfodol sydd am gynrychioli Cymru gael ei gysylltu ag enghreifftiau o arfer da rhyngwladol megis cyrsiau hyfforddi CBDC. Gallai rhan o'r dull hwn gynnwys adeiladu ar lwyddiant Lleisiau Cymru, drwy ymestyn y rolau hyn i ehangu'r potensial ar gyfer ymgysylltu ag athletwyr ac artistiaid a diplomyddiaeth.

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid barhau i ddatblygu a gwella rolau llysgenhadon Lleisiau Cymru drwy nodi, hyfforddi a chefnogi athletwyr ac artistiaid eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â datblygu 'brand Cymru'.



## Atodiad A: Crynodeb o brosiectau'r Gronfa Cefnogi Partneriaid

Isod ceir rhestr o'r 19 o brosiectau llwyddiannus y Gronfa Cefnogi Partneriaid.

SEFYDLIAD	CRYNODEB O'R PROSIECT
Cymdeithas Bêl-droed Cymru	Gŵyl creadigrwydd Gŵyl Cymru, rhaglen ymgysylltu Ysgolion, hwb adnoddau yn y cartref Cwpan y Byd, platfform ffrydio cyfryngau RedWall+, gosodweithiau ar y thema Het Fwced i ymgysylltu â chefnogwyr.
S4C	Cyngerdd Cymry i'r Byd - Gogledd America a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2022, yn amlygu diwylliant Cymreig ar draws gwahanol genres h.y. cerddoriaeth, barddoniaeth a pherfformiadau. Yn cynnwys cyfleoedd rhwydweithio, ymgysylltu â Chymry ar wasgar, a chysylltiadau â Ryan Reynolds a Rob McElhenney, perchnogion Clwb Pêl-droed Wrecsam.
Cyngor Celfyddydau Cymru / Y Wal Goch	Cefnogaeth i weithgareddau celfyddydol a oedd yn dathlu Cwpan y Byd mewn digwyddiadau a gynhaliwyd ledled Cymru, meithrin perthynas waith agosach rhwng clybiau chwaraeon a'r celfyddydau, cydweithio â CBDC ar brosiect Gŵyl Cymru, gweinyddu Cronfa'r Wal Goch.
Amgueddfa Cymru	Cyflwyno Arddangosfa 'Cymru yw... Lleisiau'r Wal Goch' yn Sain Ffagan.
Urdd Gobaith Cymru	Jamborï Cwpan y Byd gyda phob un o'r 2,219 o ysgolion cynradd yng Nghymru, rhaglen ymgysylltu a sioe deithiol Chwaraewyr i ysgolion, Llysgenhadon Rhyngwladol Wal Goch yn Qatar ac UDA.
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru	Fel rhan o Wyl Cymru Rhyngwladol - bydd gweithgareddau artistig yn cael eu cynnal mewn cyrchfannau marchnad allweddol gyda chefnogaeth cynnwys digidol ac yn cael ei hyrwyddo yn unol ag ymgyrchoedd marchnata Llywodraeth Cymru a gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus byd-eang.
Cyngor Celfyddydau Cymru / CBDC	Comisiynu cynhyrchydd a rheolwr prosiect i oruchwylio gweithgareddau rhwng CBDC, CCC a phartneriaid o'r is-grŵp celfyddydau a chyflwyno rhaglen uchelgeisiol o weithgareddau celfyddydol i gefnogi Cwpan y Byd
Street Games Cymru	Rhaglen o weithgareddau ymgysylltu â chwaraeon yn seiliedig ar fethodoleg Chwaraeon Stepen Drws Street Games i ddarparu gweithgareddau cynhwysol i'r rhai sy'n byw mewn tldi yng Nghymru, yn unol â thema Cwpan y Byd.
Bengal Dragons	Hyrwyddo cyfres o ddigwyddiadau amrywiol yn seiliedig ar y thema 'Amar' ('Fy' yn ieithoedd de Asia). Ffoaduriaid o Affganistan yn mynychu gêm gartref ddiwethaf Cymru, gêm Amar Cymru yn erbyn Amar Lloegr, cyflwyno digwyddiad 'Her Game Too' i groesawu menywod Cymreig o Dde-ddwyrain Asia mewn digwyddiad thematig i wyl Cymru yn erbyn UDA mewn

	amgylchedd diogel, digwyddiad ar gyfer gêm Cymru yn erbyn Iran, digwyddiad ar y cyd ar Zoom i grŵp amrywiol wylïo gêm Cymru yn erbyn Lloegr.
Clybiau Bechgyn a Merched Cymru	Comisiynu prosiect 'Ysbrydoli Cenhedlaeth' i gyflwyno ystod ddwyieithog o ddigwyddiadau ar gyfer clybiau Bechgyn a Merched ledled Cymru. Gan gynnwys diwrnodau gweithgaredd Cwpan y Byd, gemau Pêl-droed rhyngwladol yn erbyn BGC America, Parti Cymunedol, a chynhadledd Gwaith Ieuenctid gyda BGC America.
Barry Horns	Band Barry Horns yn cyflwyno amrywiaeth o ddigwyddiadau yn Qatar gan gynnwys perfformio mewn o leiaf un gêm grŵp, digwyddiadau diwrnod gêm, parti croeso gyda chyn-chwaraewyr a siaradwyr, a pherfformio yn ardaloedd cefnogwyr Dubai.
Cymru Fyd-eang / Prifysgolion Cymru	Cynhyrchu fideo a chynnwys arall yn dathlu Cymru Wales yng Nghwpan y Byd, gyda myfyrwyr rhyngwladol a domestig o brifysgolion a cholegau yn rhannu'r hyn y maen nhw'n ei hoffi am Gymru.
Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth	Prosiect wedi ei anelu at: Cysylltu tîm pêl-droed Cymru â neges gwrth-hiliaeth ym meddyliau Plant a Phobl Ifanc, creu llyfr gwaith gwrth-hiliaeth cynhwysol i blant a phobl ifanc, Pecyn i athrawon sy'n hyrwyddo gwrth-hiliaeth a chwpan Cymru yn y Byd, sesiynau galw heibio i gynnig cymorth i addysgwyr ddefnyddio adnoddau, cystadleuaeth am y defnydd gorau o adnoddau.
Expo y Wal Goch / We Are Bak	Gŵyl i'r rhai sy'n gwirioni ar bêl-droed, a gynhaliwyd yn Wrecsam ar 11,12,13 Tachwedd yn cynnwys: lansio cyfres ffilm a theledu, gweithgareddau i'r teulu, llofnodi llyfrau, gweithdai a pherfformiadau celfyddydol, gigs a digwyddiadau cerddoriaeth, gweithdai allgymorth ar themâu pêl-droed a'r Byd i gyd Cwpan
Mentrau Iaith	Cyflwyno ystod o brosiectau yn canolbwyntio ar gân Dafydd Iwan wedi'u hanelu at hyrwyddo'r Gymraeg a gwerthoedd Cymreig sy'n cynnwys sesiynau canu cymunedol, comisiynu Murluniau gan artistiaid lleol, cystadleuaeth dylunio het fwced ar y cyd ag SO58, cynhyrchu crysau retro anferth i gefnogwyr eu llofnodi a'u hanfon i Qatar i'w harddangos yng ngwersyll hyfforddi Cymru yn Doha.
Cyngor Llyfrau Cymru	Prosiect i arddangos Cymru fel cenedl drwy ddull cyfannol drwy ddsbarthu 37 o lyfrau dwyieithog ar thema pêl-droed i lyfrgelloedd a banciau bwyd lleol, comisiynu darluniau pêl-droed pwrpasol ar gyfer bagiau ac ymgyrchoedd marchnata.
Mudiad Meithrin	Pecyn o weithgareddau i holl grwpiau'r Mudiad ar thema Cwpan y Byd yn cynnwys llyfr stori newydd ac adnoddau ffitrwydd, sesiynau dysgu ar thema Cwpan y Byd i oedolion, cysylltedd drwy ganu ag UDA, Iran, a Lloegr. Wedi'i anelu at ddysgwyr cynnar er mwyn helpu i greu atgofion a chysylltiadau cadarnhaol â Chymru yng Nghwpan y Byd a'r Gymraeg.

<p>Cyngor Wreccsam / Amgueddfa Bêl-droed Cymru</p>	<p>Bydd Amgueddfa Bêl-droed newydd Cymru yn cynnal cyfres o ddiwyddiadau a gweithgareddau i sefydlu prosiect casglu a chomisiynu cenedlaethol i gasglu profiadau ystod amrywiol o gefnogwyr a chwaraewyr, dogfennu eu profiadau a chasglu gwrthrychau 3D a bydd y rhain yn cael eu defnyddio mewn arddangosfeydd ac yng nghasgliadau'r Amgueddfa Bêl-droed a diwrnod neu gyfres o weithgareddau cenedlaethol i arddangos treftadaeth pêl-droed Cymru, gan weithio gydag amgueddfeydd lleol ledled Cymru</p>
<p>Global Welsh</p>	<p>Derbyniad yn Nhŷ Cymru yn gysylltiedig â Chwpan y Byd (21 Tachwedd) ar gyfer gêm UDA, derbyniad yn Dubai (ar gyfer un o'r gemau)</p>